

ECO'r Wyddfa

f Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 464

Ebrill 2018

Pris: 70c



Llwyddiant Dwbwl!

Llongyfarchiadau i Anna Wyn, Efail Newydd, Llanrug ar ei llwyddiant diweddar ym Mhrifysgol Aberystwyth. Anna yw enillydd Gwobr Norah Isaac y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eleni. Dyfernir Gwobr Norah Isaac yn flynyddol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Sefydlodd y Coleg y wobwr hon yn 2014 er cof am Norah Isaac. Dyfernir hi i'r myfyriwr a gafodd y canlyniad gorau yn asesiad Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg.

Mewn seremoni yn Aberystwyth cyflwynwyd y wobwr i Anna am gael y marciau uchaf drwy Gymru yn arholiadau Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg, sy'n profi gallu myfyrwyr i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Hi yw'r gyntaf o Brifysgol Aberystwyth i ennill yr anrhydedd. Hefyd mae Anna wedi cael ei hethol yn Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA) ar gyfer 2018/19. Mae hon yn swydd llawn amser am flwyddyn.

Llwyddiant Ieuenctid y fro

Yn rhy aml o lawer mae ein hieuenctid yn cael eu beirniadu, ond y mis hwn trueni na fyddai gan yr "Eco" hanner dwsin o dudalennau blaen, a'r rheini i gyd yn rhoi sylw i lwyddiannau cenedlaethol amrywiol pobol ifanc y fro. A'r holl lwyddiannau wedi dod mewn amrywiol feysydd hefyd; o eisteddfodau i fyd y ffilm, ac o wleidyddiaeth i chwaraeon, a hyd yn oed ymweliad â Siapan. Canmoliaeth am lwyddiant – ond canmoliaeth hefyd am ymddygiad, ac y mae hynny yr un mor bwysig.

Darlennwch hanes Anna (arall) a Betsan ar dudalen 29, Gethin ar dudalen 17 pedair ysgoloriaeth i Brifysgolion ar dudalen 16 Gwernan ar dudalen 13 heb son am y timau pel-fasged, traws-gwlad a bowldro yn Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch.

RHIF 464
Ebrill 2018

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

Rhifyn

Mai

Mehefin

Copi i law

Sul 22 Ebrill

Sul 20 Mai

Bwndelu

Gwener 4 Mai

Gwener 1 Mehefin

Ble

Deiniolen

Brynrefail

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd

Cyfle i Hyrwyddo Eich Busnes

Os ydych am hyrwyddo busnes neu gymdeithas newydd cofiwch fod modd gwneud hynny am ddim drwy ychwanegu eich manylion i Gyfeiriadur Y Lolfa. Mae'r cyfeiriadur yn ymddangos yn holl ddyddiaduron Y Lolfa ac ar ein gwefan. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dilyn y ddolen yma: www.ylolf.com/cyfeiriadur a llenwi ffurflen ar-lein syml.

Mae croeso i chi hefyd wirio neu ddileu gwybodaeth am sefydliad sydd eisoes yn y cyfeiriadur, neu awgrymu busnes newydd, yn yr un modd.

Pob hwyl

Sonia Hughes

sonia@ylolf.com

Y Lolfa, Talybont, Ceredigion. SY24 5HE

APÊL am

Ymddiriedolwyr Newydd



Hoffai Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru hysbysebu ei hangen i recriwtio pedwar/pedair ymddiriedolwr newydd. Y nod yw cynorthwyo gyda'r gwaith pwysig o gynnal a rheoli elusen sy'n darparu gwasanaethau i 3,000 o bobl dall a rhannol ddall led-led Gogledd Cymru.

Gofynnir am ymrwiniad amser hyd at chwe awr y mis. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymuno â chriw brwdfrydig sy'n gweithio'n agos gyda'r prif weithredwr, staff a gwirfoddolwyr i gynllunio a darparu gwasanaethau i bobl a nam golwg. Mae'r Gymdeithas yn cynnig ystod eang o wasanaethau a chefnogaeth i'r bobl hyn.

Ymysg y gwasanaethau a gynigir gan y Gymdeithas ceir:

- Recordio llyfrau llafar a phapurau newydd
- Cynnal nifer o grwpiau a gweithgareddau
- Canolfan adnoddau
- Gwasanaeth swyddogion adfer
- Addysgu technoleg gwybodaeth

Mae'r Gymdeithas yn awyddus i dderbyn ceisiadau oddi wrth unigolion o bob tras a chefnidir sydd ag ystod eang o sgiliau a phrofiadau.

Os hoffech fwy o wybodaeth neu sgwrs gyffredinol am rôl ymddiriedolwr, gellir cysylltu â'r Prif Weithredwr, Steven Thomas, drwy ffonio 01248 353604 neu e.bostio at steven@nwsb.org.uk

Enid Alafon

Annwyl Olygydd,

Fel un wedi fy ngeni a'm magu ym mro'r "Eco", diddorol oedd gweld cynnwys cerdd Alafon i 'Lyn y Gader' yn y rhifyn diwethaf. Byddaf wrth fy modd yn darllen barddoniaeth, a daeth i'm cof fel y byddai fy mam, y ddiweddar Ellen Mary Parry, Ty'n Pwll, Y Fachwen (un o deulu'r Clossiaid), yn son iddi fynd i weini at Alafon i'r Ysgoldy a hithau ond rhyw bymtheg oed. Yr oedd yn ddyn annwyl iawn, a merch fach tua thair oed yn aros yno gyda'i mam. Roedd yn eneth fach bert yn ôl fy mam, a mam wedi dotio arni, gan ddweud os byth y byddai'n priodi a chael merch fach, byddai'n ei galw yn Enid, gan mai Enid Alafon oedd enw'r ferch fach yn yr Ysgoldy. Dyna sut cefais i fy enw.

Pwy oedd Enid Alafon, nis gwn. Tybed oes rhyw gofnod yn rhywle all roi goleuni ar y mater? Nid wyf yn sicr os oedd Alafon yn briod. Cofiaf hefyd i'm mam ddweud mai hoff fwyd y cartref oedd brithyll, ac y byddai'n cael rhai i ddod adref i Dy'n Pwll yn aml.

Dyna ychwanegiad bach i'w roi 'ar ben arall i'r lein'!

Yn gywir,

Enid Jones

(Fachwen, a Bryn Celli, Talysarn gynt) Trosnant, Stryd y Parch, Rhuthun.

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£50 - Sarah M Kelly, Bangor

£20 - Er cof am Goronwy Williams, Llys Ifor, Llanrug gan Eurwen a'r teulu; Er cof am Rhia Griffiths, Llundain (Penisarwaun gynt) gan Norah O'Brien.

£19 - Robert Elwyn Williams, Cranleigh

£13.00 Alan Pritchard, Dolafon, Cwm y Glo.

£12 - Ann William

£10 - Er cof am Alan Owen, Stad Ty Hen, Waunfawr gan Jacqueline; Dafydd a Helen Owen, Bryn Hyfryd, Penisarwaun; Ronnie Williams, Aylestone; Gwerfyl McCarthy, Childwall; Eluned Jones; Di-enw, Penisarwaun; Anna Sidebotham, Whaley Bridge;

£5 - Geraint Huws Roberts, Bangor; Er cof am y ddiweddar Jennie Angharad Roberts, Brynrefail.

£3 - Gwyn Williams, Llys Myfyr, Brynrefail; John Huw Evans, Rhiwlas

£2 - Rheon Tomos

Pwyllgor "Eco'r Wyddfa"

Mewn cyfarfod diweddar penderfynwyd fod pris y papur i'w gadw yn 70c am y flwyddyn 2018-19, a thâl o £7 ymlaen llaw yn sicrhau 11 o gopiau, sef un rhifyn am ddim.

Gwneir apêl hefyd ar i fusnesau'r fro fod yn fwy parod i hysbysebu yn y papur. Am wybodaeth ynglŷn â thelerau arbennig, cysylltwch â'r Trefnydd Hysbysebion, Rhian George (gweler cyfeiriad ar dudalen 2). Gyda diolch arbennig i'r holl fusnesau sydd wedi cefnogi ac yn parhau i gefnogi yr "Eco", ac i bawb sy'n cynorthwyo mewn amryfal ddulliau.



Yn ystod y mis aeth heibio

- Daeth y gaeaf ar ein gwarthaf ddiwedd Chwefror a dechrau Mawrth, gan hyrddio eira trwchus un diwrnod, rhew caled ar ddyddiau eraill a rhyferthwy o wyntoedd dro arall. A bu’n rhaid gohirio dyddiad danfon yr “Eco” o’r wasg ym Mhenygroes i Lanrug oherwydd cyflwr y ffyrdd. Ac fel y gwelir ar y dudalen hon, bu mwynhad a difrod. Crewyd caseg eira anferthol ar gopa Moel Eilio, ond difrodwyd coed hynafol ym Mharc Padarn.
- Er gwaethaf y tywydd gallodd aelodau Cyngor Gwynedd gyfarfod i bennu’r dreth, ac yn ôl y disgwyl bu cynnydd. Cynnydd yn y dreth – a mwy o doriadau ar y gwasanaethau. Dyna’r gŵyn gan yr etholwyr mewn cynghorau led-led Cymru. Ond hawdd beio aelodau lleol, a’r Canghellor yn parhau i argymell cwtogi ariannol. Er fod y wlad yn dal mewn twnnel, meddai, mae golau ar ei ddiwedd. Ond i’r rhai sy’n dioddef effeithiau toriadau llym mae’n haws credu fod y golau ym mhen draw’r twnnel eisoes wedi ei ddiffodd.
- Ymweliad swyddogol gan unben tywysogaidd Saudi Arabia, a chroeso cynnes iddo gan y Prif Weinidog. Cytundeb i anfon gwerth miliynau o bunnoedd o awyrennau ac arfau rhyfel i’r Dwyrain Canol: i’r union wlad sy’n gyfrifol am ddifrodi a

- llofruddio pobl ddiamddiffyn yn Yemen. May yn troi clust fyddar i brotestiadau mudiadau heddychlon. Ydi, mae pres yn siarad.
- Cyngor Gwynedd yn datgan y bydd holl glybiau ieuenctid y sir yn cau wedi’r Pasg, a sustem newydd yn cael ei gweithredu o fis Medi ymlaen. Grant ariannol i’r Ffermwyr Ifanc wedi ei chadw am flwyddyn; ond hynny chwaith yn fawr o gysur.
 - Yn dilyn ymgynghoriad ar sut i ddiogelu’r Wyddfa, Partneriaeth yr Wyddfa (sy’n cynnwys y Parc Cenedlaethol a’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yn datgan na fydd tâl yn cael ei godi ar gerddwyr sy’n dymuno cerdded i’r copa. Ac wrth gwr, doedd hynny ddim yn debygol o ddigwydd gan y byddai’n amhosib plismona’r fath gynllun. Ond y gobaith yw y bydd yr hanner miliwn a mwy o ymwelwyr yn cyfrannu’n wirfoddol tuag at gynnal y llwybrau. Mae gobaith hefyd y bydd gwasanaeth y Bws Sherpa yn cael ei wella.
 - Nid yn aml y daw newyddion da yn sgil gwynt traed y meirw, ond roedd cryfder gwynt y dwyrain yn ystod Mawrth yn golygu fod un rhan o dair holl drydan Prydain wedi ei gynhyrchu gan wynt ar ddydd gŵyl Sant Padrig; y gyfradd uchaf erioed.

O'R YSGOL



Fel mae'n hysbys bydd y Brifathrawes Nia Guillemin yn ymddeol ar ddiwedd tymor yr Haf eleni. Bu Nia yma am 21 mlynedd, 15 mlynedd fel Prifathrawes. Bu hyn yn gyfnod o newidiadau mawr ym myd addysg ac yn y blynyddoedd diwethaf yn gyfnod o doriadau llym. Serch hynny arweiniodd dim dawnus, a chynnal safonau uchel yn addysgiadol ac yn gymdeithasol. Mae'n fwriad trefnu tysteb i gydnabod cyfraniad Nia, sy'n rhoi cyfle i gyn-ddisgyblion, rhieni a ffrindiau'r ysgol i gyfrannu. Gellir danfon unrhyw gyfraniad at y Swyddog Gweinyddol Lowri Hughes. Bellach mae'r cyfweiliadau ar gyfer olynedd wedi eu cynnal, a chlod i'r ysgol a'i henw da fod wyth wedi ymgeisio, gyda thri ar y rhestr fer. Y Prifathro newydd fydd Gwion Owen (Tŷ'r Ysgol, gynt). Ar hyn o bryd mae'n Ddirprwy yn Ysgol Gynradd Llanrwst. Llongyfarchiadau i Gwion – cyn-ddisgybl o'r ysgol – a dymunwn yn dda iddo. Daeth Gwion i gyfarfod diweddaraf y Corff Llywodraethol a dywedodd ei fod yn ymwybodol o enw da yr ysgol tu hwnt i ffiniau Gwynedd, a'i obaith yw cynnal y safonau hynny, gan gofio mai prif adnodd a phwrpas pob ysgol yw ei disgyblion.

Yn ystod cyfarfod llawn o'r Llywodraethwyr cafwyd cyflwyniad ar Siarter Iaith yr ysgol gan aelodau o'r Cyngor Ysgol. O gofio eu hoedran cafwyd datganiad gloyw yn rhoddi darlun o sefyllfa gref y Gymraeg yn yr Ysgol. Cafwyd ymdriniaeth eang yn ymestyn o iaith y dosbarth i iaith yr iard. O weithgareddau, clybiau a diddordebau. Danghoswyd canlyniadau holiadur â baratowyd gan y Cyngor Ysgol, a hyn hefyd yn arddangos deallusrwydd y plant ym myd Technoleg Gwybodaeth. Ymysg y Cyngor Ysgol roedd dwy ferch sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg. Eto, roeddent yn rhugl eu cyflwyniad, ac mae hyn yn elfen hynod o bositif. Gyda balchder gellir cyhoeddi fod Ysgol Bethel yn ysgol gynhenid Gymreig.



Fel Ysgol Eco bu'r plant yn llwyddianus yn creu posteri yn cefnogi Arbed Ynni. Hefyd bydd yr Ysgol yn cynnal gweithgaredd Big Pedal ym mis Ebrill i hybu dod i'r ysgol ar gefn beic.

Bu P.C. Dylan draw yn yr ysgol yn cynnal sesiynau peryglon moddion gyda B1, diogelwch y We gyda Bl. 3 ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol gyda Bl. 5/6.

Ganol Mawrth aeth Bl.6 ar y daith breswyl i Gaerdydd. Mae'r digwyddiad yma yn coroni blynyddoedd y plant yn Ysgol Bethel, ac mae'r adborth a'r atgofion i'w trysori ganddynt. Arweinwyd y plant gan Dylan Parry, Joyce Gaffey ac Awen Ellis.

Diolch i Lowri Jones, Swyddog Chwaraeon yr Urdd am ddod i gynnal sesiynnau hoci gyda disgyblion yr Adran Iau.

Cafwyd ymdrech arbennig gan garfan nofio'r ysgol yn y Gala Ardal gan orffen yn 6ed. o'r 9 ysgol oedd yn cystadlu.

Bu Bl.6 yn brysur yn trefnu gweithgareddau ar gyfer gweddill yr ysgol i nodi diwrnod Sports Relief. A hithau'n oer a gweddillion yr eira'n dal o gwmpas roedd y sesiwn ffitrwydd yn hynod o boblogaidd.

ADRAN YR URDD, BETHEL



Bu Parti Llefary cynradd yr Adran Bentref yn llwyddianus yn yr Eisteddfod Sir draw ym Mangor. Ymlaen a nhw felly i'r Genedlaethol ar faes y Sioe Fawr yn Llanellwedd dros wythnos y Sulgwyn. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau.



Hefyd yn teithio i Lanelwedd bydd y grwp dawnsio disgo hŷn o'r Adran Bentref. Unwaith eto, llongyfarchiadau i'r hyfforddwraig Kelly Jones sydd a record ryfeddol o gyrraedd y Brifwyl dros y blynyddoedd diweddar.

Bashō

Matsuo Bashō oedd bardd mawr Japan yn yr ail ganrif ar bymtheg. Ef berffeithiodd yr heicw, sef cerdd 17 sill wedi ei selio ar brofiad o weld a theimlo o fyd natur, ond yn troi'n ymdeimlad cyffredinol cyfoethog i'w thrysori.

Mae beirdd sawl gwlad wedi defnyddio'r dull moel hwn. Yn wir bu yn destun 'ysgrifennu 12 heicw' yn Adran Barddoniaeth yr Eisteddfod Genedlaethol dro yn ôl... credaf mai'r Prifardd Eurwyn George enillodd y tro hwnnw.

Rwyf wedi bod yn ail/drydydd/pedwerydd ddarllen cyfieithiadau o'i lyfrau... The Narrow Road to the Deep North and Other Travel Sketches. Cafysbrydoliaeth dawel o fywyd y bardd Zen Bwdwaidd hwn oedd yn myfyrio ddydd a nos ar y "pethau bychain" syml, ydynt yn aruthrol fawr yn y diwedd. Ni fedrwn lai na throi fy "llaw" ambell dro ac ysgrifennu heicw Cymreig – 17 sill – tair llinell – 5 sill – 7 sill – 5 sill.

Dyma ddewis ohonynt:

Lili Wen Fach

Yr haul wedi'r heth
llu'r nef mewn 'gynnau gwynion'
gwanwyn – cyn gwanwyn.

Socan Eira [un o deulu'r fronfraith]

Un socan eira
yn edrych 'tuag adra'
am Sgandinafia...

Yr Haul

Symud di – symud
o wawr y dydd hyd ei wyll,
ynni'r gogoniant.

Lluwch

Awch ar gŷn y gwynt
yn creu o'r lluwch dros y ffordd
gelf cerflunydd cain.

Hysbyseb cwmni "Gwyliau Viking" [ITV]

Dwy fulfran wrth lein
ar rafft fain o goed bambŵ,
"sgota cyntefig."

[Mae hen ddull Siapaneaidd o bysgota – rhoi cylch am wddf y fulfran fel, pan wedi dal pysgodyn, ni all ei lyncu, a'r pysgotwr wedyn yn casglu yr helfa!!

O'm darllen o waith Bashō daethym ar draws yr heicw hwn
mewn cyfieithiad rydd...

Cormorant fishing
how stirring,
how saddening.

Groglith Golgotha

Ar fryn y Tri Pren
rhoed coron ddrain ar ben Un
-Hwn sy'n 'maddau bai'.

Norman Closs

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Cafodd aelodau y Cylch y pleser o gwmni Rhys Iorwerth yn ein cyfarfod mis Chwefror. Croesawyd ef i'n plith gan Merfyn Morgan ac fe'n hatgoffodd fod Rhys yn hogyn o'r dref a bellach yn byw yn ôl yma. Dyma enillydd cadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam ac wedi ennill sawl cadair cyn hynny. Yn 2014 cyhoeddodd lyfr o'i farddoniaeth, "Un Stribedyn Bach", ac yna cyfrol o ryddiaith, Abermandraw yn 2017.

Ategodd Rhys ei falchder ei fod bellach unwaith eto yn gofi go iawn ac nid cofi alltud. Yna rhoddodd ragflas i ni o'i farddoniaeth diweddaraf, a oedd yn amrywio o'r dwys i'r doniol a'r dychan. Roedd ei gerddi gogleisiol yn cwmpasu ymdrechion tîm pêl-droed Cymru yn Ffrainc yn plesio ac yna ei gerddi i Heddwyn Wyn a'r bechgyn a gollwyd yn y rhyfel byd cyntaf yn ein sobreiddio. Roedd anwyldeb ei gyfarchiad i'w nith fechan, Liwsi, yn hyfryd ac roedd cerdd y bardd yn mofyn garddwr yn ogleisiol ac yn denu gwên.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Merfyn a mynegodd ddyhead sawl un ohonom y byddai y cerddi yn gweld golau dydd cyn bo hir.

Dyddiadur Amaeth

Beth am hysbysebu eich busnes, eich cynnyrch neu eich llety gwyliau yn y dyddiadur amaeth eleni. Mae grŵp o wragedd fferm sydd wedi cynhyrchu dyddiadur amaethyddol llwyddiannus am dair blynedd wedi gosod nod i gynhyrchu dyddiadur gwell eleni fydd yn cael ei ddefnyddio gan nifer yn y sector amaethyddol yn ogystal a nifer sydd wedi arallgyfeirio i'r sector dwristiaeth.

Bydd y Dyddiadur Amaeth 2019 a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn y Sioe Fawr yn Llanellwedd eleni yn uchel ar y rhestr o anrhegion Nadolig delfrydol wrth i'r grŵp obeithio y bydd pobl yn prynu'r dyddiadur maint A4 fel anrhegion i'w teuluoedd unwaith eto eleni.

Fe greodd y grŵp Gwas Fferm y dyddiadur fel rhan o grŵp Agrisgôp, sef criw o ferched arloesol o'r un anian o ardal Bala a'r syniad y tu ôl i'r argraffiad cyntaf yn 2016 oedd cadw un o'ch addunedau blwyddyn newydd i fod yn drefnus. Yn dilyn llwyddiant y dyddiadur hwnnw, mae'r grŵp bellach yn rhedeg y fenter fel busnes bychain eu hunain.

Mae'r grŵp wedi cydweithio gyda chwmni cyhoeddi Y Lolfa ac unwaith eto bydd y dyddiadur yn cynnwys adran i gadw cofnodion ynghyd â hysbysebion gan gwmnïau lleol a chenedlaethol. Gobaith y merched eleni yw cael mwy o hysbysebion o ganolbarth a de Cymru.

Mae'r dyddiadur yn cynnwys dyddiadau allweddol o fewn y flwyddyn amaethyddol yng Nghymru, yn ogystal â chyfeiriadur amaethyddol gyda manylion cyswllt busnesau, contractwyr a gwasanaethau amaethyddol lleol a chenedlaethol.

Yn 2017 penderfynodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol ac o ddiddordeb cael arferion tywydd ar y tudalennau ac yn 2018 cafwyd dywediadau fferm. Y gobaith eleni yw cyfuno'r ddau a chwilio am rai newydd, felly cofiwch ddanfôn eich diarhebion neu eich dywediadau heddiw i agriapp@outlook.com, yn ogystal â hysbysebion neu ffoniwch ar 01678540348

Mae'r grŵp yn cynnwys Buddug Jones o Ffem Cefn Eithin Glanyrafon, Manon Jones o Brynbedwog Rhosygwaliau, Sarah Dale o Gwernfeistrol, Llidiardau, Sian Jones o Fferm Henblas Llandderfel, Rachael Madeley-Davies o Fedw Arian Uchaf Y Bala, Lowri Rees-Roberts o Dolhendre Isa a Lindsey Ellis Edwards o Ffarm Tyddyn Ronnen Llanuwchllyn.

Wil Bach Ann

Sgwrs a glywyd rhwng gwraig siop a ffermwr yn y Waunfawr, rhyw dro yn ystod y 1960au, yn sôn am hen gymeriad o'r enw Williams Gruffydd, neu 'Wil Bach Ann', fel y byddai pawb yn yr ardal yn ei adnabod, oedd ddim wedi bod yn dda ei iechyd.

Gwraig y Siop: 'Ew, ma'r hen Wil Bach Ann druan wedi torri a mynd i edrach yn ddrwg.

Ffermwr: 'Yn tydi o 'fyd, chwith gweld yr hen greadur fel mae o!'

Gwraig y siop: 'Rargian, mi ddychrynis i o'i weld o'n dŵad ar y lôn y dwrnod o'r blaen a golwg fel y drychiolath arno fo chi.'

Ffermwr: 'Ia, biti weld o fel hyn chi, a fynta 'di bod yn un mor sionc erioed de. Ond duwcs, ma'r hen Wil 'di bod yn cwyno ers tro rŵan chi, a does na'm llawar yn ôl ers iddo fo ddŵad adra o'r hosbitol ar ôl diodda bowt go ddrwg o niwmonia.'

Gwraig y siop: 'Nefi, mi odd golwg ofnadwy arno fo chi, yn stryffaglio dŵad ar ei ffon, ac yn mwmblian siarad rwbath drwy'i drwyn. Prin fod y creadur wedi'n nabod i, os ddaru o o gwbwl a deud y gwir wrtha chi. Mi o'dd gynno fo rhyw hen gôt laes amdano chi, a honno'n hongian dros i sgwydda hyd at i grimoga, a hen gap melfared a hwnnw lawar rhy fawr dros i dalcan a'i glustia, a rhyw hen ffaga blera welsoch chi rioed am i draed, a rheini efo gwadna 'di gwisgo nes bod nhw'n dylla at i sana. Welis i rotshwn olwg ar neb yn fy nydd rioed, naddo mewn difri calon i chi.'

Ffermwr: 'Ew coblyn o ffootbolar da ers talwm rhen Wiliam chi, ew oedd. Cofio fel bydda fo'n mynd fel sgwarnog lawr y cae efo'r bêl wrth i draed, a neb yn medru ddal o. Wyddoch chi, fod o'n mynd mor ffast de, nes bod i sodla fo yn hitio bocha'i ben ôl o wrth iddo fe redag! Ew, y gora welis i rioed am gicio pêl, r'hen Wil Bach Ann chi, w'annwl dad ia!'

Gwilym Morris Jones

Cadarnhau bwrdd cyfarwyddwyr Cwmni Hamdden Gwynedd

Mae cynlluniau cyffrous y Cyngor ar gyfer dyfodol ei ganolfannau hamdden wedi cyrraedd carreg filltir bwysig wrth i fwrdd cyfarwyddwyr ar y cwmni hamdden Gwynedd arfaethedig gael eu cadarnhau.

Ym mis Hydref 2017, fe wnaeth cynghorwyr Gwynedd gefnogi bwriad i sefydlu cwmni a fydd yn cael ei reoli gan y Cyngor a fydd yn gyfrifol am 12 canolfan hamdden y sir.

Mae saith o gynghorwyr Gwynedd sy'n cynrychioli cymunedau ar draws y sir yn cychwyn ar eu gwaith fel cyfarwyddwyr yn fuan. Byddant yn gyfrifol am berfformiad y cwmni a gosod strategaeth datblygu'r corff.

Meddai Aelod Cabinet Hamdden Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Craig ab Iago: "Mi fyddwn i'n hoffi diolch i'r saith aelod am ymgymryd â'r rôl bwysig yma fel cyfarwyddwyr ein cwmni hamdden newydd ac rydw i'n edrych ymlaen at gydweithio efo nhw ar y fenter gyffrous. Dwi'n falch iawn fod saith o gynghorwyr brwdfrydig ar y bwrdd, mae pob un ohonyn nhw'n dod â chefnidir gwahanol a phrofiadau amrywiol i'r gwaith o lywio cyfeiriad y cwmni.

"Fel Cyngor, rydan ni yn credu mai'r model newydd yma ydi'r opsiwn gorau posib i gynnal y rhwydwaith presennol o ganolfannau hamdden ac edrych am gyfleoedd newydd i'r dyfodol.

"Mae'n ffaiith fod y cyllid yr ydan ni'n ei dderbyn gan y llywodraeth i ddarparu gwasanaethau lleol yn cael ei dorri, ac mae hyn yn golygu fod rhaid i ni feddwl yn greadigol am sut y byddwn ni'n darparu gwasanaethau i'r dyfodol.

"Rydan ni'n teimlo fod y model o sefydlu cwmni yn ein galluogi ni i sicrhau arbedion ariannol sylweddol tra'n sicrhau fod y gwasanaethau i drigolion yn parhau. Ni fyddai wedi bod yn bosib i ni ddarparu'r arbedion blynyddol yma os byddai'r canolfannau yn parhau o fewn y Cyngor, a byddai hynny yn ei dro yn arwain ar doriadau anorfod mewn gwasanaeth."

Y saith aelod o fwrdd cyfarwyddwyr Cwmni Hamdden Gwynedd

ydi: Y Cynghorydd Sian Wyn Hughes (Morfa Nefyn); Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Cwm-y-glo); Y Cynghorydd Beth Lawton (Bryncrug / Llanfihangel); Y Cynghorydd Dewi Owen (Aberdyfi); Y Cynghorydd Jason Parry (Caernarfon - Peblig); Y Cynghorydd Catrin Wager (Bangor - Menai); Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams (Caernarfon - Cadnant).

Mewn datganiad ar y cyd, dywedodd y cyfarwyddwyr: "Fel aelodau'r Bwrdd, rydan ni'n edrych ymlaen yn fawr at y gwaith cychwynnol o ddatblygu'r cwmni newydd. Mae'n brosiect cyffrous gyda chyfle i ddatblygu ac arloesi. Fel cynghorwyr, rydym yn awyddus i sicrhau fod yr un lefel o wasanaeth uchel mae cwsmeriaid y canolfannau yn ei gael ar hyn o bryd yn parhau i'r dyfodol."

Mae disgwyl i'r cwmni fod yn weithredol o'n fuan yn 2019.

NODIADAU

- Mae'r Cyngor yn darparu a rheoli 12 Canolfan Hamdden ar draws y sir gydag oddeutu 17,000 o aelodau a 1.5 miliwn o ymweliadau'r flwyddyn.

- Mae'r gwariant gros y gwasanaeth hamdden bron i £5m y flwyddyn ond fe ddenir £3.1m o incwm drwy ffioedd aelodaeth a mynediad yn bennaf. Mae'r Cyngor felly'n cymorthdal bron i £1.9m o'r gwasanaeth hamdden.

- Ers 2014/15 mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i leihau'r cymhorthdal yma o 33% drwy gyfres o gynlluniau arbedion a chynnydd incwm drwy ddenu aelodau newydd.

- Mae'r achos dros newid y model darparu yn seiliedig ar y casgliad na fyddai'r gwasanaeth yn gallu adnabod yr arbedion angenrheidiol heb orfod ystyried cau nifer o ganolfannau hamdden neu gynyddu ffioedd aelodaeth a mynediad ar raddfa sylweddol.

- Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn talu dros £500,000 y flwyddyn mewn trethi annomestig felly fe fyddai trosglwyddo'r ddarpariaeth i gorff sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad o'r trethi hynny yn arwain at arbediad sylweddol yng nghost y gwasanaeth.

AC Arfon Yn Bencampwr Ar Ddau Rywogaeth Prin

Mae AC Arfon, Sian Gwenllian, yn Bencampwr Rhywogaeth ar nid un ond ar ddau rywogaeth prin – yr unig Aelod Cynulliad sydd yn bencampwr ar ddau greadur arbennig, sef Llinos y Mynydd a'r Llyngyren Ddilau.

Yn anffodus mae poblogaeth Llinos y Mynydd wedi bod yn gwanhau ers blynyddoedd ac mae'n debyg mai diffyg bwyd addas sy'n gyfrifol am hynny. Yn wahanol i llinosod eraill sydd yn bwyta pryfaid, dim ond hadau mae Llinos y Mynydd yn eu bwyta ac mae amaethu dwys wedi golygu ein bod wedi colli llawer o'n dolydd a fyddai wedi cynnal y llinos, gan olygu bod y niferoedd bellach yn gostwng.

Ond mae trafodaethau llwyddiannus rhwng swyddogion yr RSPB a ffermwyr yn Nant Ffrancon wedi golygu bod y dyfodol yn edrych yn addawol i boblogaeth Llinos y Mynydd.

Mae llyngyr dilau'n ffurfio riffiau byw trawiadol ar lannau creigiog, weithiau hyd at sawl metr o led a metr o ddyfnder. Maent yn gwneud

hyn drwy adeiladu tiwbiau o dywod a darnau o gregyn. Yr enw arnynt yw llyngyr 'dilau' gan fod y tiwbiau maent yn eu creu'n ffurfio haenau o riffiau ar batrwm dilau. Maent yn bwysig i gadwraeth gan fod riffiau biogenig yn darparu cynefin ar gyfer anifeiliaid eraill a gwymon sy'n byw ar y lan, fel malwod, crancod traeth, pysgod yr anemoni a letys môr.

Mae newidiadau i ddosbarthiad tywod yn cael effaith arwyddocaol ar allu'r llyngyr i gynhyrchu riffiau. Gall hyn gael ei achosi gan weithgarwch dyn, fel tynnu rhwydi, treillio ac adeiladu amddiffynfeydd môr, ac mae'r difrod yn effeithio nid yn unig ar lyngyr ond ar anifeiliaid morol eraill sy'n byw yn y riffiau byw yma.

Hoffai Siân Gwenllian ddiolch i Helen Brooks am greu'r bathodyn Llyngyren Ddilau a Jane Comer am y bathodyn Llinos y Mynydd, a gynlluniwyd ar gyfer y Diwmod Gweithredu 'Show the Love' a gynhaliwyd i bob Aelod Cynulliad sydd yn bencampwr ar rywogaeth prin.

Gwasanaethau y Capel

Ar Sul y Pasg, Ebrill 1af am 2 o'r gloch cynhelir Oedfa Gymun dan ofal y gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson.

Ddydd Sul, Ebrill 15fed am 2 o'r gloch gwasanaethir gan Y Parch Eric Roberts, Caeathro.

Llongyfarchiadau Anfonwn longyfarchiadau cynnes iawn i Mr T. Elwyn Griffiths, gynt o Erw Wen, Caeathro, fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed ar Fawrth 10ed. Carreg filltir nodedig iawn i un sydd wedi cyfrannu'n helaeth i Gymreictod, i'r Eisteddfod Genedlaethol a Chymru a'r Byd. Fe'i ganed yn Llandybie, Sir Gâr ond bu'n llyfrgellydd yn Siroedd Meirionnydd a Chaernarfon am flynyddoedd lawer. Pan oedd yn swyddog yn y Llu Awyr yn Cairo yn 1943 sylweddolodd fod angen cylchgrawn i gysylltu'r milwyr â'r hen wlad ac aeth ati i sefydlu Seren y Dwyrain, fu'n werthfawr iawn i Gymry alltud drwy'r byd. Ar ôl y rhyfel roedd yn un o griw bychan sefydlodd Undeb y Cymry ar Wasgar

a gwelwyd pabell iddynt am y tro cyntaf yn Eisteddfod Pen y Bont ar Ogwr yn1948. Bu Mr Griffiths wedyn yn mynychu'r Eisteddfod o 1948 hyd at 2009 heb fethu yr un diwrnod, sydd yn record go arbennig. Dymuniadau gorau i chi yn eich cartref ym Mhlas Garnedd, Llanfairpwll, lle bu y postmon yn brysur iawn yn ôl pob sôn.

Llongyfarchiadau Anfonwn yr un neges o longyfarchion i Mr Reg Chambers Jones, Hafod Wen, sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 90 yn ystod y mis. Wedi iddo ymddeol fel rheolwr banc mae yntau yn dal yn sionc ac yn brysur fel hanesydd lleol. Dymuniadau gorau i chi, Reg.

Clwb Merched Diolch yn fawr i Duncan Brown, Waunfawr, am fod mor barod i ddod atom fis Ionawr a gobeithiwn cael hanes y cardiau post yn y dyfodol, wedi gorfod newid y drefn yn ystod y mis. Bu criw yn dathlu Gŵyl Dewi gyda swper ac adloniant yn Melin Seiont a bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 22ain am 8

pan ddisgwyliwn Gwyn Hefin Jones o Frynrefail i siarad am rai o'i deithiau. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Hwyl yn yr eira Braf oedd gweld y plant yn cael hwyl yn yr eira. Bu sglefrio tebyg i'r hyn welwyd yn yr olympiad yn Corea ar y llethrau rhwng Garreg Lwyd a'r gwaith brics, a chafwyd o leiaf dri dyn eira campus yn Cefn Gof ac ar y cae chwarae. Roedd rhywun gwreiddiol wedi ei adeiladu ar 'roundabout' y plant, a chafodd reid hefo nhw nes i'r tymheredd godi eto, a dim ond y foronen, y glo a'r sgarff ar ôl!!

Gobeithio fod pawb, hen ac ifanc, wedi bod yn ofalus.

Casglu Sbwriel Dewch i roi help llaw i'r criw ffyddlon sydd yn tacluso'r pentref drwy gasglu sbwriel, y tro yma rhwng 10 a 12 bore dydd Sul, Ebrill 2il. Mae digon o offer ar gael wrth y Ganolfan felly rhowch dro arni.

Helfa Wyau Pasg Cynhelir yr Helfa am 11.00 bore Sul y Pasg fel arfer i holl blant y pentref. Gobeithio y bydd yn fore braf

i gynnal y traddodiad unwaith eto.

Canmol y Plant Llongyfarchiadau i Begw, Eldra ac Anna Celyn fu'n llwyddiannus gyda Cerdd Dant ac Adrodd yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Da iawn chi a daliwch ati.

Tynfa Misol. Dyma ganlyniadau tynfa mis Mawrth. 1af (73) £40: Marian Hughes, Tŷ Mawr; 2il (77) £25: Mair Roberts, Sŵn y Gwynt; 3ydd (7) £15: Hemsworth, The Barn; 4ydd (85) £5: O,H, Williams, 19 Rhes Glangwna.

Clwb Jiwdo Segontwm

Llongyfarchiadau i aelodau y clwb a fu'n llwyddiannus yn pasio eu graddio yn ddiweddar. Roedd asesiad drylwyr o wybodaeth, sgil ac agwedd pob chwaraewr a'r safon yn uchel - da iawn pawb!

Byddwn yn cynnal Cyfarfod Blynnyddol y Clwb Jiwdo - Nos Lun, Ebrill 23 2018 am 7 o'r gloch. Mae croeso i aelodau newydd.



Sefydliad y Merched Neilltuwyd cyfarfod mis Mawrth i dathlu Gŵyl Ddewi. Aeth noson y mis a'r aelodau draw i Ynys Môn i Lys Celyn yn Star, Gaerwen. Yno yn disgwyl pawb roedd arddangosfa "Coginio Adra ar yr Aga" dan ofal Eirlys Williams ac Elen. Yn dilyn aeth pawb ymlaen i flasgu pryd o fwyd pedwar cwrs wedi ei baratoi ganddynt a'r cwbl wedi ei gyflwyno mewn lleoliad ac awyrgylch hyfryd iawn. Mwynhaodd pawb noson gartrefol a bwyd ardderchog. Mae diolch yr oll o'r aelodau i Shirley a Margaret am drefnu noson gwerth chweil.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon Mawrth am 5 yr hwyr

- 1: SUL Y PASG Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
- Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 8: Parch Glenys Jones, Pwllheli
- 15: Parch Harri Parri, Caernarfon
- 22: Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn
- 29: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel

Diolch Dymuna Eleri Nixon a Bethan Lambert ddiolch i'r teulu a ffrindiau oll am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn y brofedigaeth o golli mam, nain a hen-nain annwyl iawn – y ddiweddar Jennie Angharad Roberts. Mae ein diolch i Feddygfa Llanberis a'r gweithwyr Gofal Cartref dros nifer o flynyddoedd ynghyd â staff Plas Pengwaith. Diolch i'r Parch Marcus Robinson, Lowri Prys Roberts, Gwyn Hefin Jones, Simon Nixon a Megan Roberts am eu rhan yn y gwasanaeth angladdol, am y trefniadau trylwyr a theimladwy gan yr ymgymrwyr Meinir a Dylan Griffith ac i Caban am drefnu'r lluniaeth.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon y Grawys

Roedd gwasanaethau dau Sul cyntaf y Grawys dan ofal yr aelodau. Trefnwyd ac arweiniwyd gwasanaeth y Sul cyntaf gan Gwyn Hefin Jones a'r ail Sul gan Lowri Prys Roberts a'r cyfan wedi eu seilio ar agweddau perthnasol i'r cyfnod arbennig hwn. Cymerwyd rhan hefyd gan Dafydd Ellis, Ifanwy Jones, Einir Gwyn, Iris Rowlands, Mair Davies a Robert John Williams. Bu'r Sul dilynol dan ofal y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson a gwasanaeth arbennig Sul y Fam dan arweiniad y Parch Gwenda Richards, Caernarfon. Gyda gwasanaeth pellach dan ofal y Dr Huw Tegid Roberts cafwyd neges arbennig ar Sul y Palmwydd gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen, a'r cyfan yn ein harwain at yr Wythnos Sanctaidd a Sul Pasg.

Cefnogwch ein hysbysebwy

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Tybed a ydyw Cyngor Gwynedd wedi anghofio am ardal Dinorwig pan yn tynnu allan amserlen ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus hefo'r cwmni newydd? Tri bws y diwrnod, un cyn wyth y bore, un am 11.07 a'r olaf am 4.07, a'r tri ym mynd i Gaernarfon. Pwy o'r henoed sydd eisiau mynd allan cyn wyth y bore ac os y byddech yn mynd ar y bws un ar ddeg, rhaid aros yng Nghaernarfon am dros bedair awr cyn medru dod adref. Os y byddech yn colli yr un am hanner awr wedi tri, does yr un arall ar gael. Amserlen diddim iawn mi gredaf.

A beth sydd yn digwydd pe byddai rhai mynd i'r ysbyty, byddai rhaid llogi tacsï. Pwy o'r henoed ar bensiwn gwlad fedr fforddio hynny?

Yr wyf fi yn digwydd bod yn un o'r rhai lwcus sydd hefo car ond yr wyf wedi bod yn teithio llawer ar drafndiaeth gyhoeddus er mwyn trio eu cadw i ddal i ddod i ardal Dinorwig. Byddaf yn mynd hefo'r car i Ddeiniolen ond yn amlach na pheidio mae'r bws yn andros o hwyr neu nid yw yn dod o gwbl. Pa fath o wasanaeth yw hyn? Yr wythnos o'r blaen fe fu i mi fynd ar y bws 2.20 i Ysbyty Gwynedd, bws dau lawr yn cyrraedd Rhydfadog am 2.30 (deg munud yn hwyr) gyda'r gobaith o gael y bws chwarter i bedwar i Ddeiniolen adref, ond unwaith eto yr oedd yn ddeng munud wedi pedwar ar fws dau lawr yn dod i mewn, pum munud ar hugain ar ôl

ei amser, a phawb wedi rhewi yn disgwyl amdano, a gwaeth na hynny nid oedd gwres ar y bws. Bron na fuaswn yn dweud y gallwn gerdded i fyny Nant y Garth yn gynt na'r bws! Yn ôl a ddeallaf maent wedi torri i lawr ar y ffordd gryn dipyn, ddim yn cadw amser, neu yn waeth na'r cyfan, ddim yn troi i fyny o gwbl.

Rwyf yn deall bod y Cynghorydd Elfed Williams wedi cychwyn deiseb a bod dros bum cant wedi ei arwyddo. Da iawn chdi, Elfed.

Gynghorwyr Gwynedd, os gwelwch yn dda cofiwch am bentref Dinorwig a thriwch fod o gymorth i ni hefo'r holl broblemau sydd wedi digwydd hefo'r trafndiaeth cyhoeddus ers rhai misoedd bellach. Rhowch eich hysgwydd o dan y baich a thriwch gofio am yr ifanc na fedr fforddio car, ac sydd yn gorfod dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus i fynd a dod i'r gwaith. Cofiwch hefyd am yr henoed sydd wedi mynd yn rhy hen i ddreifio ond wrth eu bodd yn gallu mynd allan am dro i Gaernarfon neu Fangor am rhyw awr neu ddwy i gael newid lle a gweld wynebau newydd.

Y Tywydd Mae mis Chwefror wedi dangos ei ddannedd eleni ac yna ddechrau Mawrth cawsom andros o dywydd. Cawsom gryn dipyn o eira, er fy mod wedi gweld mwy, ond yna daeth gwynt y dwyrain cryf ac yr oedd yn ddifrifol o oer. Buaswn yn mynd ar fy llw nad oedd dim gwres yma o gwbl a bu'n rhaid goddef tri diwrnod ohono. Nid yw

gwynt y dwyrain byth ar ei ben ei hun, mae yn deifo'r coed a'r planhigion a hwythau newydd ddechrau blaguro. Fe fu i lawer o drigolion yr ardal gael difrod a gobeithio erbyn hyn bod y mwyafrif wedi gallu dod i'r lan hefo'r difrod. Does gennyf ond gobeithio pan ddaw y gwanwyn y bydd y tywydd yn gwella a byddwn yn gweld ambell ddiwrnod braf a'r haul yn gwenu arnom. Wedi dweud hynny mae tipyn o esgyrn eira ar yr Wyddfa o hyd ac, yn ôl yr hen air, bydd rhaid cael eira eto i fynd â'r hen oddi yno. Gobeithio na welwn lawer ohono, mae'r gaeaf wedi bod yn hir ac oer eleni.

Cofgolofn y Chwarelwyr

Mae gwynt y dwyrain wedi creu dipyn o hafoc ar y cennin Pedr eleni. Maent ar y funud yn reit fflat ond gobeithio y gallant godi eu pennau eto. Mae'r eirlysiau wedi cael blaen ar y gwynt ac wedi edrych yn hardd iawn. Mae Mrs Betty Bower yn gofalu eu bod yn cael gofal, er parch i'w diweddar ŵr, Ray. Diolch yn fawr iawn i chwi, Betty, mae cryn dipyn o ddiddordeb yn y goflogofn o hyd a llawer yn falch o gael dod i gael golwg arni yn ystod y tymor.

Y Lodge, neu fel y byddwn yn ei hadnabod am byth, yr Hen Ysgol. Yn anffodus bu dipyn o ddifrod ar yr adeilad yn ystod y gwynt dwyreiniol. Nid yw hyn ond peth i'w ddisgwyl gan bod yr adeilad yn wynebu'r ddrycin. Yr oedd y llechi wedi disgyn o'r to ac rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'r perchnogion gan y bu rhaid

cau'r man parcio. Be oedd yn digwydd wedyn oedd fod pobl yn parcio ar y ffordd fawr, sef ceir, faniau reit fawr a, mwy na hynny, un bws. Yr oeddynt wedi parcio o Fron Dirion un ochr ac i Dy'n y Fawnog o'r ochr arall.

Da iawn am gau y man parcio, rhag ofn damwain ond tybed lle y mae iechyd a diogelwch yn dod iddi pan mae y math yma o barcio yn cymryd lle. Pan oeddwn yn mynd i'r capel y Sul ar ôl y storm roedd fan reit fawr yn trio dod allan o ffordd Fachwen ac yn cael andros o broblem wrth y Lodge. Doedd dim i'w wneud ond dod allan o'r car a rhoi help i drïo ei arwain, ac yn y diwedd bu iddo lwyddo.

Mae rhai o gwsmeriaid y Lodge yn diystyru yr angen i gadw'r lôn yn glir, yn enwedig ar y gyffordd â'r Fachwen, ac yn creu peryglon. Tybed a oes raid cael damwain cyn i synnwyr cyffredin gael blaenoriaeth.

Salwch Y mae cryn gwyno wedi bod yn yr ardal ers dechrau'r flwyddyn. Rhai hefo anwyd a'r fflw a nifer o bethau eraill. Yr ydym fel ardal yn anfon ein cofion atynt i gyd gan obeithio yn arw eu bod wedi gwella erbyn hyn.

Yr ydym yn anfon ein cofion hefyd at Mrs Megan Morris yn y cartref ym Mhlas Garnedd, Llanberis, ac sydd yn gobeithio cael gweld ei phen-blwydd yn 103 ym mis Mehefin. Dymunwn y gorau i chi, gan obeithio y cewch weld y dydd yma. Cariad mawr atoch.



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



GERAINT OWEN CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI TEILS VINYLs

DEWIS MAWR O BATRYMAU



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Cronfa Ysbytai Chwarelwyr Dinorwig.....

Gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn y newyddion yn ddyddiol oherwydd amryfal broblemau, mae'n anodd meddwl sut yr oedd pobl yn ymdopi hebddo. O gofio mai'r chwarel oedd prif gynhaliath teuluoedd y fro hon, nid yw'n syndod fod y chwarelwyr wedi sefydlu cronfa oedd yn cefnogi gweithwyr a'u teuluoedd mewn cyfnod o salwch a damweiniau.

Yn ddiweddar cefais fenthyg copi o Adroddiad Blynyddol Cronfa Ysbytai Chwarelwyr Dinorwig (sic) a'r Canghennau am y flwyddyn yn diwedd Rhagfyr 31ain 1935. Gyda diolch i Steffan Roberts, Caffi Pen Ceunant, Llanberis.

Hwn oedd yr ail adroddiad ar hugain, felly mae'n amlwg i'r Gronfa gael ei sefydlu yn swyddogol yn 1913. Ond roedd y gwaith paratoi wedi cychwyn yn gynt. Gweithwyr Ponc Pen Rhydd Rowler Garret awgrymodd sefydlu cronfa o'r fath, a hynny oherwydd fod Cymdeithas Clwb Cleifion Chwarel Dinorwig yn cael ei therfynu a'i dadgorffori yn dilyn Deddf Iechyd Yswiriant Cenedlaethol a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 1912. Trafodwyd y syniad yng ngwahanol bonciau'r chwarel, a chyfarfu cynrychiolwyr o bob ponc yn y Steam Mills un awr ginio. A dyna'r cychwyn.


Etholwyd Thomas Rees Owen, Penisarwaun yn ysgrifennydd, a pharhaodd yn y swydd hyd ei farwolaeth yn 1933. Dilynwyd ef gan J. Morris-Parry, Cwm y Glo. Y trysoryddion oedd David Evans, Plas Coch, Llanberis; David Roberts, Caradoc Place, Deiniolen a Robert Jones, Sardis, Dinorwig. Roedd y llywyddion yn cael eu newid yn flynyddol. Roedd 15 o chwarelwyr yn cynrychioli gwahanol rannau o'r chwarel, sef Garret, Braich, Diffwys a Mona, Diffwys a Hafod Owen, Gilfach Ddu, a'r Allt Ddu. Gwahanol bentrefi'r fro oedd y 'canghennau', sef Llanberis (2 gynrychiolydd), Felinheli (1), Deiniolen (2), Cwm y Glo (2), Penisarwaun (1), Brynrefail (1), Waunfawr (2), Llanrug (1), Bethel (1) a Rhiwlas (1). Doedd cynrychiolwyr y gwahanol

bentrefi ddim o reidrwydd yn weithwyr yn y chwarel, ac y mae'n ddiddorol nodi ym mlynyddyn dathlu canrif o bleidlais i ferched, fod tair merch yn aelodau o'r pwyllgor a etholwyd ar gyfer 1936, sef Miss Kate Hughes, Isfryn, Deiniolen; Miss Lizzie Foulkes, Glan Ffrwd, Brynrefail a Miss Ceinwen Thomas, Post Office, Bethel.

Mae'n ymddangos mai'r tâl aelodaeth am 1936 fyddai deg swllt a chwe cheiniog i ddydion dros 16 oed a phum swllt a thair ceiniog i ferched. Yn ôl rheolau'r Gronfa, amcan y taliadau oedd "cynorthwyo yr aelodau i gael barn 'specialist' ". Roedd hyn hefyd yn cynnwys y rhai oedd yn ddibynnol ar yr aelodau – gŵr, gwraig, brawd, chwaer a phlant dan 16 oed. Ar sail y taliad roedd hawl i "docyn derbyniad" ganddynt i'r ysbytai canlynol: Royal Infirmary, Lerpwl; Eye and Ear Infirmary, Lerpwl; Devonshire Hospital, Buxton; Cottage Hospital, Caernarfon, a'r Caernarvon and Anglesey Infirmary, Bangor. Ond o astudio'r daflen ariannol, mae'n amlwg fod rhai yn ymweld ag ysbytai eraill hefyd; rhai fel y Royal Southern, Lerpwl; Women's Hospital, Lerpwl; Stanley Hospital, Lerpwl; Cancer Institution, Lerpwl; Eryri Hospital, Caernarfon; Cheadle; Guy's Hospital, Llundain; Ruthin a Rochdale. Roedd taliadau hefyd am driniaeth i'r Ddafad Wyllt ac i gael X-ray (ni nodir ble). Yn 1935 roedd cyfanswm o 751 wedi derbyn taliad i fynychu un o'r ysbytai uchod, gyda 351 ohonynt yn mynd i'r hen C & A, Bangor. Yn yr adroddiad mae'r holl aelodau a dderbyniodd gymorth ariannol yn cael eu rhestru mewn wyth tudalen, gan gynnwys y swm ariannol a dalwyd - ond ni nodir i ba ysbyty.

Mae'n bosib i'r Gronfa hon hefyd gael ei dirwyn i ben gyda sefydlu y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, ond gwn fod Cronfa'r Ddafad Wyllt wedi parhau'n ddiweddarach na hynny.

Cof am filwr o Ebenezer.....



A hithau'n tynnu at derfyn cyfnod y cofio am y Rhyfel Byd Cyntaf, daeth gwybodaeth am filwr ifanc un-ar-hugain oed o Ebenezer a gollodd ei fywyd bron i ganrif union yn ôl. Roedd Owen Morris Jones yn fab i Thomas a Mary Morris Jones, Green Terrace, Ebenezer, ac yn aelod o 4eddd Bataliwn y Ffiwsilwyr Cymreig.

Pentref bychan ychydig filltiroedd i'r gogledd-ddwyrain o dref Albert yw Pozieres, ac yn y cyffiniau hyn y colodd Owen Morris Jones ei fywyd ar y 6ed o Ebrill 1918. Roedd Pumed Byddin y Cynghreiriaid dan warchae trwm yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill y flwyddyn honno, ac yn cael eu gwthio'n ôl ar draws




meysydd rhyfel y Somme. Roedd yn fis Awst cyn y byddai'r llanw'n troi, ond erbyn hynny, roedd yn rhy hwyr i'r milwr ifanc a 14,000 o filwyr Prydeinig eraill a laddwyd rhwng diwedd Mawrth a dechrau Awst 1918.

Mae Cofeb Pozieres wedi ei chynllunio i gofio am y miloedd a laddwyd ar y Somme yn 1916, ond yn cynnwys hefyd y rhai a laddwyd yma rhwng misoedd Mawrth ac Awst 1918. Cafodd y Gofeb ei dadorchuddio ym mis Awst 1930, ddeuddeg mlynedd wedi diwedd y rhyfel. Ychydig a feddyliai'r rhai oedd yn gyfrifol y byddai brwydro yn ail-ddechrau mewn cwta ddeng mlynedd arall.

Rasys Cwn Defaid Betws Garmon

Yn dilyn y cais fis diwethaf am wybodaeth am y rasys cwn defaid ym Metws Garmon ganrif a mwy yn ôl, daeth ymateb arbennig gan Gwilym Morris Jones, Bontnewydd. Yn ei feddiant roedd rhaglen y rasys ar gyfer 1919, ac ymhlith yr enwau oedd yn cyfrannu cwpan roedd Jacobus Spyker o'r Iseldiroedd. Ac o fewn y rhaglen hefyd roedd rhestr o enillwyr y cwpan hwnnw yn y blynyddoedd cynt. Pam felly roedd gŵr o'r Iseldiroedd yn cyflwyno cwpan i gystadleuaeth ym Metws Garmon? Yr ateb yn syml yw'r hen weithfeydd haearn ar lethrau'r Moel Eilio. Perchennog un o'r cwmnïau'n cloddio yno oedd Alfred Hickman, diwydiannwr o Wolverhampton. Roedd yn un o gyfarwyddwyr cyntaf clwb pel-droed Wolverhampton Wanderers, a sefydlwyd fel tim ysgol sul St Luke's, eglwys Anglicanaidd, gyda bachgen o ddyffryn Gwyrfai – y Parch John Parry – yn rheithor.



A'r John Parry hwn ar ei ymddeoliad a brynodd Blas y Nant a dychwelyd yno i fyw. A'r gwr o'r Iseldiroedd? Fe'i cyflogwyd gan Alfred Hickman i gynllunio yr 'aerial ropeway' oedd yn cario'r mwyn haearn o Fetws Garmon dros ystlys Moel Eilio i Lanberis. Mae'n amlwg felly ei fod yn ŵr o bwys

yn yr ardal, ac arhosodd yng Nghymru hyd o leiaf 1913 yn gweithio ar gynlluniau 'aerial ropeways' eraill, yn enwedig ym Meirionnydd. Ond ble mae Cwpan Jacobus Spyker erbyn hyn? Yn ôl y rheolau, roedd unrhyw gystadleuydd oedd yn ennill y cwpan deirgwaith yn cael ei chadw am byth. Erbyn 1919

doedd neb wedi cyflawni'r gamp, ond roedd J. Jones, Hafodty Bach, Trawsfynydd eisoes wedi ei hennill yn 1914 ac 1915. O bosib i'r rasys cwn defaid gael eu gohirio rhwng 1915 ac 1919 oherwydd y rhyfel. Tybed a ddaeth y gŵr o Drawsfynydd yn ôl i geisio cipio'r cwpan am y trydydd tro – a'i hawlio?

Tan y Garret

Ynglŷn â'r cais yn y rhifyn diwethaf am fan claddu Owen Jones. Daeth gwybodaeth gan Hywyn Williams fod Owen Jones, Groeslon Uchaf, Dinorwig wedi ei gofnodi yn Llyfr Claddu Llanidan ar y Sed o Fehefin 1937, yn 77 oed.

..... Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



Digwyddodd darfu...

SIELTYR YN RHAN O HANES YR ARDAL

Golwg digon digalon sydd arno erbyn hyn efo'r tywydd wedi gadael ei ôl arno dros y blynyddoedd. Sôn ydw i am sieltyr chwarael dros ffordd i Bryn Sardis yn Dinorwig.

Mae gen i gof plentyn o glywed fy nhad, Hugh Thomas, yn mynd drwy ddrws 1 Bro Elidir ben bora am ei waith yn Chwarael Dinorwig ac o ffenestr fy ystafell wely ei weld yn cerdded o Ty'n Fawnog i fyny heibio Capel Sardis i gyfeiriad y sieltyr wrth ymyl Bryn Sardis.

Yno byddai fy nhad yn ymuno gyda nifer o chwaraelwyr eraill oedd yn disgwyl am gael eu cludo mewn lori i fyny Lôn Gareth tuag at ran uchaf y chwarael ar gyfer cychwyn diwrnod o waith. Mi fyddwn wedyn yn gwyllo'r lori yn mynd â nhw i fyny Lôn Gareth ac oherwydd bod y waliau ar hyd ochr y ffordd mor uchel mi fyddai y lori yn diflannu o'm golwg bob hyn a hyn ac yna yn ail ymddangos o bryd i'w gilydd cyn cyrraedd diwedd ei thaith.

Yn ôl Leonard Jones o Llanberis, bu ei dad, Wil Jones, a gŵr arall o'r enw Albert Fosse, y ddau o Lanberis, yn dreifio y ddwy lori i fyny Lôn Gareth i'r chwarael ar ddechrau'r pumdegau. Byddai'r ddau yn gadael eu beics mewn sieltyr beics ar waelod Llwybr Main (Sig Sag) ac yna'n cerdded yr holl ffordd i'r cwt sinc yn Allt Ddu, Dinorwig lle'r oedd y ddwy lori yn cael eu cadw. Yna eu dreifio nhw i'r sieltyr wrth ymyl Bryn Sardis, mynd â'r hogia i'r chwarael ac yna mynd â'r ddwy lori yn ôl i'w cadw tan bore drannoeth yn Allt Ddu. Yn y bore yn unig yr oedd y loris yn cael eu defnyddio. Roedd y ddau yn gwneud hyn bob bore cyn dechrau diwrnod o waith eu hunain yn y chwarael.

Lôn gul Lôn Gareth oedd y rheswm pam mai dwy lori oedd yn cael eu defnyddio i fynd â'r chwaraelwyr i'r chwarael gan na fyddai modd i'r bysus eu cludo yno. Loris gyda'u cefnau yn agored oedd y ddwy a hen ddefnydd drostynt fel lorïau'r fyddin.

Er mwyn dal y ddwy lori o'r sieltyr byddai rhai o'r chwaraelwyr yn cerdded o Ddeiniolen ac eraill yn dod ar fysis i Tŷ'n Fawnog cyn cerdded i fyny at y sieltyr.

Byddai'n dda cael gwybod pa bryd yr adeiladwyd y sieltyr a phryd y daeth ei ddefnydd i ben. O ran ei adeiladu mi ddois ar draws cofnod am adeiladu cysgodfan i weithwyr yn Chwarael Dinorwig yng nghofnodion Pwyllgor Tai, Cyngor Dosbarth Gwyrfai ar y 10fed o Rhagfyr 1949. Does dim cyfeiriad at ba gysgodfan oedd hon. Yn y cofnod, nodir mai'r bwriad oedd adeiladu adeilad o briddfeini gyda tho sinc ond bod y Cyngor wedi cymeradwyo awgrym y pensaer sef y dylid defnyddio cerrig a llechi. Ai cofnod am y sieltyr wrth ymyl Bryn Sardis oedd hwn?

Er y gwyddom bod defnydd gwreiddiol y sieltyr wedi hen ddiflannu mae'r adeilad wedi bod yn rhan o hanes yr ardal a bydd yn ddiddorol gweld beth fydd ei ddyfodol.

Glyn Tomos



Sieltyr heddiw



Pen draw'r byd



Yn ddiweddar roeddwn yn ddigon ffodus i gael blas o fywyd ym mhen arall y byd, ble mae diwylliant a chrefydd yn wirioneddol wahanol. Ymwelais i a fy nhad â thair dinas yn Siapan sef Tokyo, Kyoto ac Osaka.

I ddinas Osaka aethon ni yn gyntaf gan fod Dad yn ymweld â'r brifysgol yno gyda'i waith. Er ei bod hi'n ddinas fodern iawn fel gweddill Siapan, roedd rhannau o'r ddinas wedi eu cadw yn hen ffasiwn, ac fe aethon ni heibio strydoedd siopa traddodiadol ar ein ffordd i ymweld â theml Fwdaidd am y tro cyntaf - profiad arbennig iawn.

Kyoto yw'r ddinas ymwelon ni â hi nesaf ac roedd llawer o bethau difyr i'w gwneud yno. Ymysg yr uchafbwyntiau oedd ymweld ag amgueddfa ninja, cerdded drwy goedwig bambw ac ymweld â Theml Yasaka-jinja oedd yn oren, hardd ac â golygfeydd rhyfeddol ohoni.


Teithion ni i'n dinas olaf, Tokyo, ar y trên bwled gan fynd heibio Mynydd Fuji, sef mynydd uchaf Siapan. O blith y dinasoedd yr ymwelais i â nhw, Tokyo yw fy ffefryn; dyma ddinas fwyaf poblog y byd, gyda myfyrwyr i'w gweld ym mhobman. Mae hi'n ddinas llawn lliw a bwrlwm a phob stryd yn orlawn o siopau bychan, golau neon ac arwyddion mewn Siapaneg hardd. Uchafbwyntiau Tokyo oedd mynd i'r Sky tree tower, sef tŵr uchaf y byd ble y gallwch weld y ddinas gyfan, hefyd siopa, mynd i deml Senso-ji a theml Meiji Jingu, a mynd ar daith cwch i weld y ddinas.

Er fy mod wrth fy modd yn aros yn y dinasoedd hardd a gwahanol yma, rwy'n credu mai'r peth mwyaf diddorol i mi am Siapan oedd y pethau dydd i ddydd gwahanol. Er enghraifft yn hytrach na chyfarfarch drwy ddweud helo neu ysgwyd llaw fel ni, mae pobl Siapan yn moesymgrymu. Mae'n rhaid cyfaddef, fe welwn i hyn yn rhyfedd ac ychydig yn ddoniol i ddechrau, cyn deall ei fod yn arwydd o barch, ac yn rhan bwysig o'u diwylliant. Rhywbeth arall wnaeth fy nharo fel merch o'r gorllewin, oedd ffasiwn y merched ifanc; roedden nhw'n tueddu i wisgo sodlau poenus o uchel a sgertiau byr ym mhob tywydd, o'u cymharu â jins a hwdis genod Cymru. Teimlad dieithr hefyd oedd i beidio bod â syniad beth roedd pobl yn ei ddweud wrtha'i ac o'm cwmipas. Er fod hyn yn anodd ar brydiau, roedd yn awyr iach hyfryd hefyd. Y gwahaniaeth mawr a diddorol arall oedd gweld templau lliwgar Bwdaidd ymhobman.

Cyn mynd i Siapan roeddwn yn nerfus y byddwn i'n gorfod bwyta cigoedd amrwd, ond mewn gwirionedd, er ei bod hi'n bosib prynu sushi sasimi (pysgod) a hyd yn oed cig ceffyl amrwd yn Siapan, doedd ei fwyta ddim mor arferol a hynny. Tueddai pobl fwyta ramin (sef noodles), tofu, ac fel cig wyau pysgod ac phast pysgod. Byddai te gwyrdd yn cael ei weini gyda phob pryd, ac roedd blasau gwahanol fel losin, hufen ia a bisgedi i'w gael ar y te hefyd.

Rwyf i'n sicr yn argymhell i bawb ymweld â Siapan! Fe wnes wirioneddol fwynhau fy amser yno, ac rwy'n ddiolchgar iawn am y profiadau ffantastic a gefais.

Gwernan Brooks



Cydymdeimlad Mae ein cydymdeimlad llwyraf yn mynd i deulu'r ddiweddar Falmai Pritchard, Gwêl y Mynydd. Roedd yn berson annwyl iawn, yn weithgar iawn yn cefnogi ei gŵr, y Parch John Pritchard, gyda'i ddau achos yn Capel Coch a'i holl eglwysi eraill ac yn magu teulu hapus o bedwar o hogia yn Gwêl y Mynydd.

Cefais groeso a gwên bob amser ar eu haelwyd. Gobeithio y bydd eich atgofion melyn ohoni yn rhywfaint o gysur i chwi fel teulu.

CATHERINE LLOYD WILLIAMS

Ar Fawrth 4ydd bu farw Catherine Lloyd Williams, 6 Rallt Goch, Llanberis yn 77 mlwydd oed. Yn dilyn gwasanaeth cyhoeddus yn Capel Coch rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent Nant Peris ddydd Gwener, 9fed o Fawrth. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Y Parchedig John Pritchard gyda Bethan Holding wrth yr organ. Talwyd y deyrnged gan Arwel Jones a fu'n ffrind i Catherine am flynyddoedd. Derbyniwyd rhoddion er cof yn ddiolchgar tuag at Diabetes UK. Trefnwyd yr angladd gyda'r gofal arferol gan E.W. Pritchard, Llanberis a chynhaliwyd yr arlwy yng Nghlwb Cymdeithasol y pentref.

Yn y deyrnged cyfeiriodd Arwel at englyn dwys R. Williams Parry, lle mae ynddo dri ansoddair fyddai'n gweddu'n berffaith i ddisgrifio Catherine – ADDFWYN, GWEDD WEN a THYNERWCH. Roedd yr addfwynder a'r tynerwch yn cael ei adlewyrchu yn y tlysni a'i nodweddai. Ychwanegwyd GWEITHGAR, GOFALGAR, HWYLIOG a DEWR at y rhestr i roddi darlun cyflawn o un oedd mor annwyl, nid yn unig i'w theulu, ond i drigolion y pentref lle treuliodd ei ho.

Hogan Llanber oedd Catherine drwyddi draw, yn ferch i'r diweddar Robert Lloyd Jones a Jane Jones, Peris View, ac yn chwaer annwyl iawn i'r diweddar Maldwyn. Cafodd fagwraeth gariadus mewn pentref byrlymus a gweithgar a hynny mewn cyfnod anghenus ar un ystyr yn dilyn yr Ail Ryfel Byd – ond ar y llaw arall yn gyfnod o gyd-glosio a chyd-gynorthwyo. Cyfnod ydoedd o gynnal breichiau, cyfnod gofalgari o wneud ffafr ac eraill ac yn gyfnod o roddi o wirfodd calon. Roedd y nodweddion gorau hyn yn rhan o wneuthuriad a natur Catherine.

Priododd fachgen o'r Waunfawr, John Williams, Blaen Ffridd. A hithau yn briodferch ifanc ganwyd ei phlentyn cyntaf, Eleri. Yna dilynodd John, Arwyn, Delyth a Dylan. Daeth Catherine yn 'fam llawn amser'. Ond, ar ôl magu'r plant fe ailgydiodd yng ngweithgareddau'r pentref. Bu'n driw i'r Band of Hope yng Nghapel Coch lle y dysgodd doreth o blant i ganu ac adrodd. Yna daeth dyddiau llwyddiannus y

carnifal i Lanberis. Uchafbwynt y carnifal fyddai Seremoni'r Frenhines. Golygai hyn oriau o ymbaratoi a hyfforddi. Y ddwy fyddai'n gyfrifol am yr hyn oll fyddai Catherine a'i ffrind oes, Mairwen Baylis. Trwy Mairwen y cafodd Arwel y wybodaeth am un gwendid mawr Catherine. Roedd hi'n un dda am fynd ar goll! Cafwyd hanesion ysgafn a hwyliog am wendid ei "Sat Nav" mewnol.

Derbyniodd Catherine her arall o fewn y pentref. Bu'n rhan o dîm y Cylch Meithrin. Dyma fan cychwyn gyrfa addysgol plentyn bach a hynny ar y ris isaf – ond heb os y ris bwysicaf un. Fe wynebodd Catherine yr her a bu yn y swydd am chwarter canrif, yn arwain y plant gydag addfwynder a thynerwch, yn ofalgar, gweithgar a hwyliog, a gwaith a werthfawrogwyd gan nifer fawr o rieni y pentref. Mynegodd nifer o drigolion eu gwerthfawrogiad o ofal Catherine dros eu plant a hynny ar y cyfrwng cymdeithasol, Facebook. Rhestrwyd nifer o'r negeseuon gan Arwel a gallai deimlo curiad calon galarus y gymuned yn y cydymdeimladau syml a diffuant.

Yn y deyrnged cyfeiriwyd at un ansoddair arall – DEWR. Fe ymunodd John a Catherine ar y daith arswydus honno gyda Chôr Meibion Dyffryn Peris i Lydaw. Roedd yr hyn ddigwyddodd ar y cei yn Roscoff ar femrwn cof pawb yn y gynulleidfa ac ni ymhelaethwyd ar y digwyddiad erchyll ac angeuol. Ond yr hyn ddigwyddodd wedi'r ddamwain oedd yn rhyfeddol. Fe gytunwyd i barhau â'r daith gyda Catherine yn ei gwendid yn cytuno â'r dyfarniad. Fe'i cynhaliwyd yn dyner iawn gan y teithwyr eraill, ond erbyn diwedd yr wythnos hi fyddai'n eu cynnal hwy, fel petai rhyw ddwyfol rym wedi ei meddiannu. Catherine ddewr.

I gloi mynegwyd i'r teulu fod breichiau'r gymdogaeth yn dynn amdanynt ac yn rhannu eu gofidiau. Daeth diwedd cyfnod iddynt – ond yn sicr nid diwedd cof. Gwerthfawrogi'r ffaith eu bod fel teulu, a hynny mewn amryfal ffyrdd, yn parhau i wasanaethu trigolion y fro yn union fel ac y gwnaeth Catherine. Cywion o frid ydynt, a pharhaed felly, cans "marw i fyw y mae'r haf o hyd".

Gwasanaethau Capel Coch am fis Ebrill

1af: 10yb Mr Dafydd Iwan

8fed: 10yb a 5yh Y Gweinidog

15fed: 10yb Parch. Dr Euros Gwyn Jones

22ain: 10.30yb Oedfa Deulu

29ain: 10yb Parch. Ruben Roberts

Arddangos ym Miwmares

Mae arddangosfa'n cael ei chynnal yng Nghanolfan Hamdden Biwmares hyd Ebrill 13eg sy'n dangos nifer o ffotograffau gan naw o wahanol ffotograffwyr o ogledd Cymru. Yn eu plith mae Paul Sivy, sy'n aelod o Glwb Camera Caernarfon, ac yn adnabyddus i drigolion yr ardal fel Warden Parc Padarn. Tirluniau yw prif hoffter Paul, ac y mae ganddo luniau trawiadol iawn o olygfeydd mynyddig a thraethau ar wahanol dymhorau ac amser o'r dydd. Esgus da i groesi'r Feni!

Canolfan Waunfawr Yn dilyn dau gyfarfod cyhoeddus a drefnwyd yn ddiweddar gan y Cyngor Cymuned, llwyddwyd i gael swyddogion a phwyllgor newydd i redeg y Ganolfan.

Diolch i nifer o ffyddloniaid y pentref am droi i fyny ac i'r ychydig o wynebau ifanc newydd a ddangosodd ddiddordeb yn nyfodol y Ganolfan.

Siomedig iawn oedd presenoldeb rhai mudiadau sy'n defnyddio'r Ganolfan yn gyson, yn ogystal â theuluoedd ifanc sy'n byw yn y pentref.

Tybed ydychydig gweithio'n wirfoddol yn hen ffasiwn erbyn hyn?

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Chwefror oedd: £30: Mrs S.M. Parkinson, Gwynfa; £20: Mrs Delyth Jones, Tan y Coed; £10: Dr Huw Roberts, Culfor, Ffordd Bangor, Caernarfon.

Merched y Wawr Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2018 ar Ionawr 25 yn y Ganolfan pan ddaeth Mr John Grisdale o Dim Achub Mynydd Llanberis i siarad gyda ni. Rhoddodd gyflwyniad cynhwysfawr i ni ar waith y tîm a llawer o gynghorion gwerthfawr ynghylch diogelwch ar y mynydd, a hynny trwy gyfrwng sgwrs ddiddorol, llawer o hanesion difyr, a rhai sobreiddiol, a sioe sleidiau fendigedig o hardd. Ar ddiwedd y noson cyflwynwyd siec iddo at waith y tîm achub. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Mr John Grisdale am roi o'i amser prin i ddod i siarad efo ni, ac i holl aelodau'r tîm achub am eu gwaith gwirfoddol

diflino o dan amgylchiadau anodd a pheryglus yn aml.

Cafwyd noson bur wahanol ar 22 Chwefror pan ddaeth aelodau'r gangen ynghyd i ddathlu dydd Gŵyl Nawddsant Cymru, Dewi Sant, gyda swper syml yng nghaffi Antur Waunfawr wedi ei baratoi gan y pwyllgor. Diolch i Antur Waunfawr am adael i ni ddefnyddio'r caffi unwaith eto. Cafwyd noson ddifyr o sgwrs a chwerthin a chasglwyd £145 at gronfa diffibriliwr Waunfawr.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn y Ganolfan ar Fawrth 22 pan fydd Debbie Williams yn dod i roi cynghorion i ni ar gadw'n heini.

Gwerthfawrogi Wel, fe ddaeth yr eira a'r plant wrth eu bodd yn chwarae ynddo. Doedd rhai ohonynt erioed wedi gweld cymaint o eira. Fe wnaethom ni drigolion y pentref werthfawrogi a diolch am gael siop yma.

Dymuna'r 'pensiynwyr' sy'n byw yn Stad Tref Eilian ddiolch o galon i Haf Owen am alw i edrych amdanynt yn ystod y tywydd o eira a gwynt oer ddiwedd mis Chwefror a dechrau Mawrth ac am ddod â theisen bach i bob un ohonynt.

Mudiad yr Urdd Da iawn chi, disgyblion yr Ysgol Gynradd ac Uwchradd fu'n cystadlu yn Eisteddfodau Cylch Arfon a phob dymuniad da i'r rhai fydd yn cynrychioli'r Cylch yn yr Eisteddfodau Sir yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dymuno'n Dda Mae'n prysur ddod yn gyfnod

profion i ddisgyblion yr Ysgol Gynradd ac arholiadau allanol i ddisgyblion yr ysgolion Uwchradd a'r myfyrwyr yn y colegau. Dymunwn y gorau i bob un ohonoch.

Dathlu Pen blwydd Arbennig Yn ystod y mis bu Mareed Rees, Tŷ Awelog, yn dathlu cyrraedd ei deunaw mlwydd oed a bu Mareed Ynyr, Dolwar Fach, yn dathlu cyrraedd ei un ar hugain oed. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Babanod Bach Newydd Ganwyd mab bach, Tomi, i Rhiannon a Chris, ŵyr i Bethan a Dafydd, Tyddyn Prion.

Hefyd ganwyd mab bach, Noa, i Tom a Ffiona, Stad Bro Waun. Mae'n frawd bach i Caio a Cian, ŵyr i Karen a Michael a gor ŵyr i Megan a Mrs Margaret Jones, Teras Glyn Afon.

Merch fach, Mabli, a anwyd i Michelle a Iolo, Stad Bod Hyfryd. Bydd Eban a Dicw yn siŵr o fod yn 'frodyr mawr' gofalus ohoni.

Llongyfarchiadau mawr i'r tri theulu a chroeso mawr i'r rhai bach. Mwynhewch y magu.

Yn Gwella Mae'n dda gweld Mrs Glenys Pierce, Bryn Gwyn, yn gwella wedi iddi gael triniaeth clun newydd yn ddiweddar.

Cafodd Haydn, Rhandir Mwyn, driniaeth ar ei lygaid yn yr ysbyty yn Abergele ac mae yntau hefyd yn gwella yn dda iawn.

Mae'n dda gweld Dion, Stad Ael y Bryn, yn gwella wedi

iddo gael triniaeth tynnu ei donsiliau yn Ysbyty Gwynedd.

Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian, sydd yn derbyn gofal yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Dymunwn wellhad buan i Ann Alark, Stad Pant Waun, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.


Mae'n dda clywed bod Emrys Owen, 'Refail yn gwella wedi iddo dderbyn llawdriniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl. Hyderwn y byddwch yn gwella ac yn cael dod adref yn fuan.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Jacqueline, Stad Tŷ Hen, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Alan. Tad annwyl Claire a llys dad caredig i Daniel, Charline a'i phriod Owain a thaid hoffus Rhodri a Lea Mai. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor.

Dymuna Jacqueline, Claire, Daniel a Charline a'r teulu ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Alan Robert Owen, 9 Stad Tŷ Hen. Mab, gŵr, tad a thaid arbennig iawn. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Waunfawr a Hosbis Dewi Sant Llandudno. Diolch i'r Parchedig Dewi Thomas Morris am wasanaeth teimladwy yn yr Amlosgfa. Diolch arbennig i staff y Feddygfa a'r Hosbis am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch yn fawr hefyd i gwmni Roberts a Owen, Ymgymrwyr, am eu gwasanaeth parchus.

Gwasanaethau Capel y Waun am fis Ebrill

- 1: (Pasg): John Roberts, Waunfawr
- 8: Robert Morris, Capel y Groes
- 15: Arawn Glyn, Y Ffor
- 22: Canon Robert Townsend
- 29: Wedi llenwi (AO)



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG



Ysgol Brynrefail



Llongyfarchidau i Dim Pêl Fasged Ysgol Brynrefail am ennill cystadleuaeth Pel Fasged Eryri o dan 13. Gem agos iawn yn y ffeinal yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen! Da iawn hogia!



Llongyfarchiadau i dim Pêl Fasged Blwyddyn 9! Ail drwy Gymru! Colli yn y ffeinal yn erbyn Ysgol Penybont (Cowbridge) 28-20 mewn gêm agos! Ymdrech a perfformiadau ardderchog hogiau.



Dyma lun o 4 o ddisgyblion yr ysgol sydd wedi sicrhau ysgoloriaethau mynediad i brifysgolion Cymru yn ddiweddar. Rhianwen Williams a Prys Hughes - ysgoloriaeth Cymraeg / Hanes a Gwleidyddiaeth i Aberystwyth Ffion Evans a Buddug Roberts - Ysgolaraeth Addysg Gynradd a Cymraeg i Fangor

Llongyfarchiadau i'r 4!



CANLYNIADAU Eisteddfod Rhanbarth 2018—Ysgol Brynrefail

Unawd Bechgyn BI7-9 Tomi Llywelyn, **Unawd Merched BI7-9** Magi Tudur, **Côr S.A. BI7, 8 a 9** Ysgol Brynrefail, **Ensemble BI7-9** Ensemble Brynrefail, **Deuawd Offerynnol BI13** ac **Iau** Rachel a Huw, **Grŵp Llefaru BI7, 8 a 9** Pa Gwennllian, **Monolog BI10 a dan 19oed** Leisa Gwennllian. **Da iawn disgyblion Ysgol Brynrefail eto.**



Llongyfarchiadau i Gethin Jones ar gael ei ddewis i fod yn aelod o Fand Pres Ieuenctid Cymru.



Tîm Trawsgwlad Ysgol Brynrefail Georgia Parkinson, Cai Llwyd, Callum O'Donnell, Huw Buck, Abbi Parkinson a Ceri Hickey oedd yn cynrychioli Ysgolion Eryri ym Mhencampwriaeth Trawsgwlad Cymru yn Aberhonddu.




Llongyfarchiadau i Anna Whiteside Thomas ar en-nill cystadleuaeth genedlaethol ar hawliau merched . Fel rhan o'i gwobr cafodd ymweld a'r Cynulliad yng Nghaerdydd. Roedd rhaid i Anna ysgrifennu erthygl ar y mater .



Llongyfarchiadau ENFAWR i Abbi Parkinson o flwyddyn 9 sydd wedi dod yn 2ail yn Nhrawsgwlad Cymru. Yn cynrychioli Cymru yn y ffeinal Prydeinig.

Llongyfarchiadau Mawr
Enillwyr Cystadlaeth Bowldro 5x60 **Gogledd Cymru** gafodd ei chynnal yng Nghanolfan Indy.
Megan George, Evie Kiernan, Mabli Baines **1af (BI7 a 8)**
Joe Chester, Tomos Pritchard, Iago Pritchard **1af (BI 7 a 8)**



Ysgol Brynrefail, Cyflwyno Alaw Werin Unigol BI7, 8
Ysgol Brynrefail, Unawd Chwythbrennau BI10 dan 19oed
Ysgol Brynrefail, Llefaru unigol BI10 a dan 19oed Leisa



DEINIOLEN

18

LLWYDDIANT I FAND DEINIOLLEN YN ABERTAWE

Mae Seindorf Arian Deiniolen yn dathlu wedi iddyn nhw ddod yn bedwerydd yn Adran 1, Pencampwriaeth Rhanbarth Cymru.

Gyda deg o fandiau arbennig yn y gystadleuaeth a gynhaliwyd yn Abertawe dros y Sul, cafodd y band eu canmol nid yn unig gan y beirniaid ond hefyd gan sylwebyddion y byd bandiau pres a oedd yn dilyn y gystadleuaeth drwy gydol y dydd.

Yn ogystal, enillodd Arwel Williams, unawdydd cornet soprano'r Band y wobwr am yr offerynnwr gorau yn yr holl gystadleuaeth, sy'n dipyn o gamp mewn cystadleuaeth mor safonol. Enillwyd y gystadleuaeth gan Fand Ebbw Valley, gyda Band Tref Porth Tywyn yn ail. Bydd y ddau fand yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Prydain yn Cheltenham ym mis Medi.

Bu'r mis diwethaf yn gyfnod prysur i Ddeiniolen, gyda'r band hefyd yn dathlu llwyddiannau lu yng nghystadlaethau unawdau, deuawdau a phedwarawdau Gogledd Cymru yn Galeri, Caernarfon ym mis Chwefror.

Daeth y band i'r brig gan ennill y nifer mwyaf o farciau drwy gydol y dydd, a 'doedd hynny'n ddim syndod gydag aelodau o'r tri band, y band ieuencid, y band iau a'r band mawr yn cyflwyno perfformiadau ardderchog ac yn ennill nifer fawr o'r cystadlaethau, gyda chanmoliaeth fawr i nifer o chwaraewyr ifanc eraill o'r band.

Bu aelodau'r band hefyd yn llwyddiannus yng nghystadlaethau rhanbarthol yr Urdd, gyda Glyn Porter a Catrin Mai Tomos Hughes yn ennill am eu hoedran, Glyn yn dod i'r brig yn y gystadleuaeth i

ddisgyblion blwyddyn 7-9 a Catrin yn ennill yn y gystadleuaeth dan 12 oed. Pob lwc i'r ddau yn Llanelwedd ym mis Mai.

Meddai Dylan Huw Jones, Cadeirydd Seindorf Arian Deiniolen, “Rydym yn hapus iawn gyda’r canlyniad yn Abertawe dros y penwythnos, ac yn llongyfarch Arwel yn fawr ar ei lwyddiant yntau. Mae’n braf a phwysig ein bod yn mynd i gystadlaethau fel hyn er mwyn cymharu ein hunain gyda bandiau eraill, er mwyn derbyn cyngor a sylwadau gan y beirniaid ac er mwyn cael bod ar lwyfan cenedlaethol.

“Mae pawb yn y band wedi gweithio mor galed dros yr wythnosau diwethaf, ac rwy’n ddiolchgar i bawb am eu hymroddiad yn yr ymarferion. Ond mae’n rhaid diolch yn arbennig i’r arweinydd Lois Eifion am ein llywio, ein hyfforddi a’n harwain mor ddeheuig.

“Llongyfarchiadau mawr i Fand Ebbw Valley a Band Tref Porth Tywyn, dau fand profiadol iawn, ar eu llwyddiant yn y gystadleuaeth a byddwn yn dilyn eu taith i Cheltenham, gan obeithio y bydd un o'r ddau'n dod â'r wobr yn ôl i Gymru.

“Diolch hefyd i bawb a fu’n cystadlu yn Galeri ym mis Chwefror ac yn yr Urdd dros yr wythnosau diwethaf. Rydym yn arbennig o falch o lwyddiant aelodau ifanc y band, sy’n brawf bod Seindorf Deiniolen yn llwyddo i gynnig cyfleoedd ardderchog i bobl o bob oed, a chyda thros 50 o aelodau rhwng y band iau a’r band ieuenctid ar hyn o bryd, mae dyfodol y band yn ddiogel am flynyddoedd lawer i ddod.”

The Tides Between

Llongyfarchiadau i'n colofnydd achlysurol o Awstralia, Liz Corbet. Mae ei llyfr 'The Tides Between', nofel yn ymwneud a hanes mudo o Gymru i Awstralia wedi ei gynnwys ar restr

Cyngor Llyfrau Plant Awstralia 2018. Meddai Liz mewn neges e-bost “Mae'n newyddion gwych. Bydd llawer o ieuenctid Awstralia yn cael eu cyflwyno at eiriau Cymraeg a chwedlau Cymreig; a gobeithio yn hybu eu diddordeb yng Nghymru.”

Mi ddoth o! Beth d'wedwch? Yr eira! Meddylir amdano, pan fo yn ein gerddi, caeau ac ar lethrau ein bryniau a'n mynyddoedd, ei fod o'n caethiwo pawb a phopeth wrth iddo arafu symudiadau'r oll a fodola o'n cwmpas. Y mae hynny i raddau'n wir, ond nid felly ym myd yr adar! Diolch byth dd'weda i am adenydd!

Eleni, gwelais adar nas gwyddwn am eu bodolaeth o gwbl yn fy libart, ac rhan byw o'm hamgylchfyd. Hyn i gyd, welwch chwi, o wylïo'r adar ar ymweliadau â'r safle gwahanol fwydydd a adawyd ar eu cyfer gerfydd brigau coeden, â'r cyfan ddigon uchel o'r llawr. Gwelwyd yn y cyfnod hwn ddau robin goch yn ymladd am eu safle bwydo! Bu yma'n ogystal nifer o adar to, llwyd y gwrych, mwyalchen, ji binc lliwgar (y gwryw rhaid cyfaddef, ond rhaid peidio gor ganmol). Do! fe welwyd nifer ohonyn nhw, ie! teulu'r titw tomos las! Dotiais at y modd y mae ambell un ohonynt yn ymddwyn! Sylwch tra'n bwydo fel y mae'r acrobat o aderyn hwn wrth iddo wylïo beth sydd o'i gwmpas, yn enwedig oddi tano. Bydd hefyd yn cipïo'r hedyn o'r gawell cyn hedfan at frigyn coeden. Yno, mi fydd o'n dal dan draed y tameidyn bwyd, cyn mynd ati i'w ddarnïo efo'i big. Bydd darnau mân yn disgyn i'r ddaear, yn fwyd i adar ac anifeiliaid eraill. Sôn am wasanaethu eraill. Mae pig yr aderyn dan sylw yn un cwbl addas ar gyfer pigo bwyd o dwll yn y cawell cnau. Wedi gorffen bwyta, bydd fel y gwna'r adar eraill, yn glanhau ei ylfìn (sef ei big) ar risgl brigyn.

Bu robin goch hefyd at y cawell cnau, ond aflwyddiannus fu ei holl ymdrechion i gipio cneuen! Hedfan oddi yno'n waglaw ei big wnaeth o! Na! breintwyd yr hen robin efo pig ar gyfer dal pryfed, ond nid cnau!

Ymwelwyr! Ac i goroni'r cyfan, ie! dau o deulu'r titw, y titw hir ei gynffon / cynffon hir, ac yn y gyfrol o eiddo John Ashton, Adar ein Gwlad (1906) a'r llyfr hynaf a feddwn fel cenedl sy'n ymwneud â'r byd pluog drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg dyma beth a ddywedir:

Yr Hirgwt ydyw y lleiaf o'r Sywidwod (gair arall am Ditwod), ac un o'r rhai mwyaf prydforth. Gelli ei adnabod yn rhwydd oddi wrth ei blu du, gwyn a gwinau a'i gynffon hir.

Daeth acw hefyd ryfeddod arall, a phâr ohonynt, set y titw du, ac fel hyn y mae John Ashton yn eu disgrifio:

Mynycha lwyni, mân goed a gerddi, a dywedir ei fod yn hoff o binwydd (sydd ar gael yma ar y fferm). Mae copa'r pen a'r gwddf yn ddu, ochrau'r pen yn wyn, ac y mae man gwyn hefyd yng nghanol y gwegil du; llwydlas yn y cefn, a chroesir yr adenydd llwydion gan ddau ribyn du.

Rŵan te, cyn gorffen, ychwanega John Ashton uchod:

Mae hefyd (sef y Titw / Sywidw Du) fel ereill o'r teulu, yn hoff o gig gwyn neu floneg; a dim ond crogi tamaid gyda llinyn o flaen ffenestr, bydd yn sicr o ddyfod ato.

Do! bu imi hongian cig moch mewn dau le, hynny gerfydd brigyn coeden, ond ni fu'r un titw mwy nag unrhyw aderyn arall yn agos atynt! Ond y mae yma, 11eg dydd mis Mawrth y flwyddyn 2018, ie! aderyn yr eira / drudwen, a finnau, druan bach ohonof, yn y golofn flaenorol i hon wedi dweud nas gwelais un yma ers cantoedd! Byd rhyfeddol, byd diddorol iawn, ie! byd yr adar, a'r gwynder, nid arafwch, o'u cwmpas, ran hynny.

Pigion Byd Natur

Titwod!





Yr Ysgol Gynradd

Gala Nofio



Daeth y tim nofio yn gyntaf yn y gala nofio a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

Yr Urdd



Cafwyd llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd gyda Rhodri Roberts, y parti llefaru, parti unsain a'r Cor cerdd dant yn cael cyntaf ac yn cynrychioli'r ysgol yn Llanelwedd ddechrau Mehefin.

Dosbarth Meithrin



Cafodd plant y dosbarth meithrin gyfle i ymarfer eu sgiliau beicio yn ddiweddar gan ddefnyddio y beiciau balans newydd. Mwynhawyd y cyfle a phawb yn awyddus i gael tro eto.

Tripiau



Blwyddyn 3 a 4

Fe aeth y dosbarth i'r amgueddfa lechi yn ystod y mis a cafwyd llawer o hwyl yn dysgu am yr ardal leol.

Celf a Chrefft Yr Urdd

Bu sawl plentyn o'r ysgol yn llwyddianus yn adran celf a chrefft yr eisteddfod ac fe fydd eu gwaith yn mynd ymlaen i'r Sir ddiwedd y mis.



Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1

Fel rhan o'i thema am gadw'n iach fe aeth y dosbarthiadau at lyn Padarn i dreulio'r diwrnod yn gwneud gweithgareddau awyr agored.

Parhad LLANRUG



Merched y Wawr

Nos Fawrth, Mawrth 13eg, estynnwyd croeso cynnes iawn i bawb gan y Llywydd, Bethanne, ar noson i ddatlu ein Nawddsant. Cychwynwyd y noson gyda Chên y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau a anfonir ein cofion gorau at Nan, Linda, Julie a Margaret Christian. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Jean a Linda a da deall bod y ddwy yn gwella'n dda. Diolchwyd i bawb a gefnogodd Caffi'r Urdd yn Ysgol Brynrefail a gwerthfawrogi cyfraniadau Ann Lloyd, Eirianwen, Gwenda, Megan a Bethanne a fu'n gweithio'n ddiwyd drwy'r dydd.

Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ar ddydd Sadwrn, Mai 12fed, am 9.30 yn Ysgol Friars Bangor. Y gost yw £22. Trefnwyd rhaglen lawn a chinio blasus. Stondin o Siop Lewis fydd yn ein denu i wario a'r artistiaid fydd Mari Pritchard a Chôr Ieuencid Môn, Robert David, actor a Chynllunydd Tai, Gareth Wyn Jones, Amaethwr a'r Brodyr Gee, Grŵp Offerynnol a Lleisiol.

Cynhelir Bowlio Deg yn Glasfryn, Y Ffor, nos Wener, Ebrill 27ain am 6.30. £5 y pen a bwyd am £7.50. Bydd y gangen yn barod i dalu costau teithio a'r £5 am gymryd rhan ar ran y gangen.

Derbyniwyd llythyr gan Nia Gruffydd, Ysgrifennydd Rhanbarth Arfon ar ran 'Elusen Cruse' sy'n chwilio am wirfoddolwyr sy'n medru'r Gymraeg i hyfforddi fel cefnogwyr i bobl mewn galar. Mwy o wybodaeth am 08445617856 neu www.cruse.org.uk/north-wales-area. Bydd cyfres newydd S4C, 'Trysorau'r Teulu' yn dechrau'n fuan yn olrhain pa drysorau sy'n cuddio yn eich cartref. A hoffech chi ddysgu mwy am hanes eich hen bethau casgladwy a gwybod beth yw eu gwerth ariannol? Gadewch i arbenigwyr ddatgelu gwerth eich trysorau teuluol. Gellir cysylltu ar helo@nimbledragon.com neu 02921675022. Diolchodd Margaret Parry i bawb am y gefnogaeth i'r Distawrwydd Noddedig.

Gan ein bod yn dathlu Gŵyl Dewi paratowyd gwledd amheuthun gan Pat gyda phob bwrdd wedi'i addurno â chennin Pedr. Roedd y bwyd sawrus a melys at ddant pawb a braf oedd cael y cyfle i gymdeithasu a chynnig llwnc destun i'n Nawddsant. Diolchir hefyd i Helen, Carrie a Jenny am y gwobrau raffl a enillwyd gan Margaret, Jean a Haf.

Gŵr gwadd y noson oedd neb llai na Neville Hughes, aelod blaenllaw o Hogia Llandygai. Un o Dalybont, ger Bangor ac yn fab i chwarelwr. Tua dechrau ei yrfa yn y banc ymddiddorodd mewn canu ysgafn a ffurfiodd, gyda nifer o ffrindiau lleol, grŵp sgiff a dechrau meistrol'r gitâr. Dyna ddechrau Hogia Llandygai ac yn 1957 nhw oedd y grŵp sgiff cyntaf i ddarlledu yn y Gymraeg. Roedd Neville, gyda'i ddoniau amryddawn, yn perfformio a chyfieithu caneuon.

Eu hofferynnau ar y cychwyn fel grŵp sgiff oedd llwyau pwddin, organ geg, pren golchi sinc, cist de a choes brwsh ac, yn eu cyngerdd cyntaf ar Ebrill 10fed 1957, cawsant 12 swllt rhwng 8 ohonynt fel cydnabyddiaeth. Yn y 60au datblygodd y sgiff fel grŵp o bedwar a daeth Hogia Llandygai i'w bri yn genedlaethol mewn cyfryngau a chyngherddau. Wedi bwlch o seibiant yn y 70au ail ddechreuwyd eto yn 1979. Tri oeddynt erbyn hyn gan ganu ar hyd a lled Cymru ac, o ganlyniad, rhoddodd yr Hogia gyfraniad sylweddol i fyd y canu pop Cymraeg o'r 50au i 1996. Ymddeolodd y grŵp o fyd cyhoeddus a'u cân olaf emosiynol oedd 'Dyddiau Difyr'.

Fe fwynhaodd pawb ymuno gyda Neville yn y caneuon poblogaidd: 'Trên Bach yr Wyddfa', 'Moliannwn', a'r anfarwol 'Defaid William Morgan'. Cydnabyddir cyfraniad cyfoethog yr Hogia i'r genedl. Diolchwyd i Neville am noson hynod fyrlymus a chymdeithasol, llawn hwyl. 'Noson Ddifyr' dros ben.

Ar Ebrill 10fed cawn gwmni Rhian Jones yn trafod y cyfrolau mae wedi eu hysgrifennu am bobl yn dechrau busnes, fel Tyddyn Sachau, Canolfan Arddio ger Pwllheli.

Diolch. Dymuna Eurwen, Kevin a Jayne, Keith a Danielle, Sharon a gweddill teulu'r diweddar Goronwy Williams ddiolch yn ddiffuant i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled enfawr o golli Gron yn ddiweddar. Cafodd Dion, Elen, Anya a Tomos Daid cariadus ac annwyl iawn. Bu'r ymweliadau, galwadau ffon a'r holl gardiau yn gysur mawr i ni. Hoffem ddiolch i Ddoctoriaid a staff Meddygfa Waunfawr ac i Ward Peblig yn Ysbyty Eryri am y gofal ardderchog o Goronwy a'r cefnogaeth a charedigrwydd ddangoswyd tuag atom fel teulu. Diolch i'r Canon Idris Thomas am ei Wasanaeth cysurus ac i Elen am ei theyrned arbennig iawn i'w Thaid. Diolch i'r ymgymrwyr, Meinir a'i staff o Dylan Griffith, Penisarwaen am eu trefniadau trylwyr a'u cefnogaeth caredig i'r teulu. Diolch o galon am y rhoddion hael, derbynwyd dros £1,000 a fydd yn mynd i le agos iawn i'n calon fel teulu sef Ysgol Pendalar.

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwr

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Premier

Y Stofa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

Parhad LLANRUG



Talu am yr Eco 2018 / 19

Byddwn yn casglu taliad o £7 am y flwyddyn y mis yma os ydych yn dymuno cario ymlaen i'w dderbyn. Diolch.

Profedigaethau Ar Chwefror 24ain bu farw Mrs Catherine Hughes-Jones, Fferm Bryn Afon yn 91 mlwydd oed yn dilyn arhosiad byr yn yr ysbyty. Gweddwr Richard Hughes-Jones, mam annwyl John ac Alwena, Olwen ac Aled a nain garedig i Iwan, Elin, Einir a Tudur a hen nain Elsa Fflur.

Bydd colled enfawr i'r teulu, ei ffrindiau ac i Gapel y Rhos, lle roedd yn aelod ffyddlon.

Cydymdeimlwn hefyd â Jude Hughes a'r teulu, Stad Glanffynnon, yn eu profedigaeth o golli mam Jude. Roedd yn byw yn Llandudno. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich profedigaeth. Ar yr un pryd mae Mrs Hughes, mam Hari a Rhydwen wedi cael gwaeledd yn ddiweddar ac ar hyn o bryd yn cartrefu gyda nhw ar eu haelwyd. Brysiwch wella.

Brysiwch Wella Mae cymaint o bentrefwyr, o bob oed, wedi dioddef o fflw neu anhwylder ar y frest yn y mis neu ddau olaf, brysiwch wella pawb. Fe ddaw y gwanwyn ar ôl yr eira yma!

Llongyfarchiadau mawr i Jennifer a Gareth Thomas, Awel yr Hesg, Afon Rhos, ar ddathlu eu Priodas Aur ddiwedd mis Mawrth. Gobeithio eich bod wedi cael noson hapus o ddathlu yng nghwmni eich teulu.

Dymuniadau gorau hefyd i Gwyndaf Lloyd Hughes, Hafan, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 ar Fawrth 22ain.

Cydymdeimlo Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr

Mamau Llanrug – pryd a ble?

Mae'r enwau'n adnabyddus, ond beth oedd yr achlysur, a pha bryd?



at Douglas ac Avril Jones, 14 Minffordd. Collodd Douglas ei frawd a'i chwaer yng nghyfraith, sef Maldwyn a Carys Jones, a hynny o fewn wythnos i'w gilydd. Dyna ddwy ergyd drom iawn i'r teulu.

Cydymdeimlo Wedi salwch byr bu farw Doreen Thomas, 1 Bryn Gro, priod annwyl Robin a mam Alison a Menna. Roedd hefyd yn nain arbennig i'w plant hwythau. Cydymdeimlwn yn fawr â chwi fel teulu yn eich colled enfawr.

Gwellhad Buan Dymunwn y gorau i Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

Hefyd Linda Jones, Pant Mwyn, a gafodd ddamwain pan yn cerdded yn Llanberis. Mae hithau wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Mae John Richard Jones,

Glanffynnon Bungalow wedi cael clun newydd.

Dymunwn adferiad buan i'r tri ohonoch.

Llongyfarchiadau i blant y pentref, disgyblion Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Brynrefail, a fu'n lwyddiannus yn Eisteddfod Cylch Arfon ac Eisteddfod Sir Eryri. Dymunwn y gorau i bawb sy'n mynd ymlaen i'r Genedlaethol yn Llanellwedd ddiwedd mis Mai.

Eglwys Sant Mihangel.

Mae'n amser o'r flwyddyn ble mae angen torri gwair a chlirio'r fynwent. Yn anffodus, mae costau'r gwaith wedi cynyddu, a gwneir apêl am gyfraniadau. Gellir cyfrannu i Beryl Roberts, 20 Glanffynnon, neu unrhyw aelod arall o'r Eglwys.

Plaid Cymru

Enillwyr y Clwb Cant - Mawrth 1- Elen George, Brynrefail
2- Iwan Roberts, Llanrug

Capel y Rhos

Trefn oedfaon mis Ebrill

1: Y Gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson. Gweinyddir Cymun y Pasg

8: Dr Huw Tegid Roberts

15: Y Gweinidog

22: Parch D. Lloyd Hughes-Jones

29: Parch Cath Williams

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN
O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Eboist- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

DIOLCH Dymuna Dafydd a Helen Owen, Bryn Hyfryd, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion, blodau hardd ac arian fydd yn cael ei drosglwyddo i'r Feddgyfa yn Llanberis. Diolch i Rhian Roberts am drefnu noson arbennig.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun

Pêl Bonws Loteri Enillydd Mis Chwefror oedd Mrs Blodwen Mowll, 19 Bryn Tirion, gyda rhif 7. Llongyfarchiadau.

Anfonwn ein cofion annwyl at Mrs Nani Evans, 26 Bryn Tirion, sydd wedi mynd i gartref Plas Pengwaith Llanberis am ofal ysbaidd, gan obeithio eich bod yn setlo i lawr.

Cydymdeimlad – Rydym yn cydymdeimlo gyda Victor a Gwenda a'r teulu, 11 Bryn Tirion, ar golli chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl, sef Mrs Gwyneth Williams o Rhydfadog, Deiniolen.

Ysgol Gymuned Penisa'r-waun

Dydd Gŵyl Dewi Cafodd y plant gyfle i ddod i'r ysgol mewn gwisg yn gysylltiedig â Chymru ar Fawrth 1af. Mwynhawyd cinio blasus wedi ei baratoi gan Anti Carolyn. Bu rhaid gohirio'r cyngerdd ar Te bach Prynhawn a drefnwyd gan y Pwyllgor Neuadd. Fe'i cynhaliwyd bnawn dydd Mercher, Mawrth 7fed, gyda phlant yr ysgol ac aelodau'r pwyllgor yn paratoi'r adloniant. Roedd llawer o wahanol bobl o'r Gymuned wedi troi i mewn ac wedi mwynhau eu hunain yn arw. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth. Gobeithiwn gynnal prynhawn tebyg y flwyddyn nesaf.

Eisteddfod Cylch yr Urdd

Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, Chwefror 24ain. Llongyfarchiadau i'r Parti Unsain am gael 1af. Diolch i Olwen am gystadlu ar yr Unawd Piano ac Efan Jac ar yr Unawd BL 3 a 4. Nos Fercher, Mawrth 7fed, bu Megan, Lois, Nel a Simone yn cystadlu yn yr Eisteddfod Symudol fel rhan o grŵp dawnsio 'Lluch y Lloer'. Da iawn chi i gyd. Cynhaliwyd Eisteddfod Sir Eryri yn Neuadd Pritchard Jones Bangor dydd Sadwrn, Mawrth 17, Llongyfarchiadau mawr i'r parti unsain am ddod yn 2ail yn y gystadleuaeth. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Annette Bryn Parri a Mrs Carys Jones am eu cymorth yn cyfeilio i'r Parti Unsain yn yr Ysgol, a Mrs Carys Jones yn yr Eisteddfodau Cylch ar Sir.

Ail gylchu Antur Waunfawr Diolch i bawb sydd yn dod â dillad ayyb i'r bin ail gylchu sydd yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau cyfraniad ariannol i'r ysgol bob tro mae'r bin yn llawn. Daliwch ati !

Ysgol Sul Bosra Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Ebrill 15fed. Anfonir ein cydymdeimlad dyfnaf at y Parch John Pritchard a'r teulu yn eu profedigaeth lem o golli Valmai. Fel aelodau'r Ysgol Sul bu'n ffrainc o'r mwyaf i ni gael adnabod Falmai a chael y ffrainc hefyd o gymryd rhan yn y Cymanfaeodd a gweithgareddau Cynllun EFE.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd George Herd, Cartref a Manon Glyn, Tawelfa.

Rydym yn hynod falch o groesawu dwy aelod newydd i'r Clwb Cant ac mae croes

cynnes i aelodau newydd bob amser. Mae'r Clwb Cant yn hwb tuag at gostau rheoli'r Neuadd Gymuned. Bu 'Dathlu Dydd Ein Nawddsant' yn hynod o lwyddiannus. Diolchir i'r rhieni, teulu a ffrindiau am ymuno â ni bnawn Mercher, Mawrth 1af. Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol am eu cyfraniadau clodwiw a mawr ein diolch i'r Pennaeth a'r Staff am eu cydweithrediad arferol. Diolchir hefyd i aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniadau hwythau ac i Annette Bryn Parri am gyfeilio. Bu'n bnawn hynod o gymdeithasol.

Gobeithir cynnal 'Disgo Pasg' nos Iau, Mawrth 22ain o 6 tan 7.30. Mynediad £1 gyda stondin Tombola a Chŵn Poeth a phaned.

Rydym yn anfon ein cofion annwyl at Leslie Larsen wedi'r driniaeth i'w lygad a chofion annwyl hefyd at Pat.

Pwyllgor Eisteddfod Bentrif Cynhelir yr Eisteddfod

nos Fercher, Gorffennaf Sed am 6.00 yn y Neuadd Gymuned. Cynhelir 'Noson Bingo' am 6.30 ar Mai 23ain a byddwn yn rhannu Testunau'r Eisteddfod ar y noson.

Bydd ymarferion yr Eisteddfod yn cychwyn ar Fehefin 6ed o 6 tan 7 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned.

Gwellhad Ein cofion anwylaf at y rhai ohonoch sydd wedi bod yn sâl ac anfonir cofion at Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, wedi triniaeth i'r llygad yn Abergele.

Diolch Hoffai Jean, Treflys, ddiolch i bawb am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch o galon i chi i gyd.

Tâl am yr Eco Buasai Ann yn falch o'ch cyfraniad o £7 am y flwyddyn erbyn diwedd Mawrth os gwelwch yn dda. Diolch i chi gefnogwyr o Fryn Eglwys, Llys y Gwynt a ffrindiau am eich cefnogaeth.

Rhiain Griffiths 1941 / 2017

Ganed Rhiain i Dilys Griffiths ar y nawfed o Orffennaf 1941.

Bu'n ddisgybl yn Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun ac am gyfnod byr yn Ysgol Llanrug. Yn dair ar ddeg oed symudodd i fyw gyda'i mam i Lundain, yn Shepherd's Bush, ac wedyn i Chiswick.

Ar ôl salwch creulon, bu farw Rhiain yn 76 mlwydd oed ar y 15fed o Ragfyr 2017 a bu'r gwasanaeth angladdol dwyieithog yn Amlosgfa Richmond ar y 9fed o Ionawr 2018, dan ofal y Parch Richard Brunt.

Cadwodd Rhiain ei Chymraeg a'i chariad at ei hardal enedigol. Roedd yn mwynhau derbyn Eco'r Wyddfa ac yn aml iawn rhyw gyfeiriad at ryw beth yn yr Eco fyddai rhan o'r sgwrs ar y ffôn. Byddai wrth ei bodd yn dod i aros am ychydig ddyddiau i'r 'Fic yn Llanbêr'.

Braint oedd i saith ohonom, yn deulu a ffrindiau, fod yn Richmond yn talu'r gymwynas olaf iddi.

Cofion annwyl iawn amdani a heddwch i'w lluch. Norah


Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

CLWB CINIO ARFON

Y pensaer Selwyn Jones oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod Mawrth, ac roedd y gair LLEOL yn llyn cyswllt drwy ei sgwrs. Sail ei sgwrs oedd Cymreictod naturiol tref Caernarfon, a bod awyrgylch Gymreig o hyd ar ei strydoedd. Yr oedd yn dadlau bod modd gwneud elw o hyn nid yn unig yn economaidd ond hefyd yn ieithyddol. Cyfeiriodd fod Caernarfon yn denu nifer o ddysgwyr – nid yn unig o Wynedd – i flasau ac i gael ysbrydoliaeth o'r Cymreictod yma. Yna cyfeiriodd at Stryd y Plas, sydd wedi dod yn gyrchfan bellach i nifer o siopau a busnesau amryw ddeniadol sy'n cael eu cynnal a'u gyrru mlaen gan bobl lleol. Mae hyn yn bendant yn cynnal cefnogaeth lleol, sy'n arwain at gyflogaeth lleol. Mae'r stryd yma bellach yn arddangos doniau celfyddydol artistiaid lleol, mewn awyrgylch Gymreig. Pwysleisiodd mai er bod Stryd y Plas bellach yn nifer o siopau annibynol, y mae'r cyd-weithio parod rhyngddynt wedi cryfhau'r atyniad.

Prif fwrddwn ei sgwrs oedd datblygiad cyffrous Llety Arall, sef datblygu safle yr hen Glwb Ffitrwydd ar Stryd y Plas. Cydsbardun y prosiect yw Menna Machraeth, o Sir Gaerfyrddin yn wreiddiol ond wedi hen gartrefu yng Nghaernarfon bellach. Ei syniad yw creu llety yn y dref ble gall bobl ddod i flasau'r Cymreictod naturiol. Sylwodd bod nifer o Wyliau llwyddianus Gymreig yn y Dre yn ystod y flwyddyn, ond prin iawn yw'r gwestai sy'n gallu cynnal yr awyrgylch Cymreig cynhenid ac am bris resymol.

Gwelwyd cyfle i ddatblygu Llety Arall – Llety Diwylliant a

Threftadaeth - gyda phwyslais ar gefnogaeth lleol. Y lleoliad yw'r hen Glwb Ffitrwydd ar Stryd y Plas. Defnyddio adeiladwyr a llafur lleol. Defnyddio cynnyrch lleol, yn ddodrefn a bwyd. Defnyddio staff gweinyddu a gofal lleol. Bydd yr adeilad o'i orffen yn cynnwys 8 ystafell aros, siop, ystafell ymgynyll a chanolfan treftadaeth. Bydd teithiau crwydro'r Dre yn cychwyn oddi yno hefyd.

Pwrcaswyd y safle am £227,500. Elfen bwysig yng nghodi'r cyfalaf yw drwy gynnig siars sy'n amrywio o £250 i £500. Eisioes mae unigolion, cymunedau a busnesau lleol wedi mentro gan godi £145,000 eisioes. Bwriedir talu llog o 2% wedi 2 flynnedd. Mae rhai unigolion wedi pwrcasu siar nid trwy arian, ond trwy weithio hyn a hyn o oriau sy'n gyfystyr a chyflog o £250. Gwreiddiol iawn. Rhagwelir bydd y prosiect cyfan yn costio rhyw £500,000. Anelir at godi gweddill o'r arian drwy'r ffyrdd arferol o fenthyciadau preifat, Cronfeydd y Gymdeithas, morgais arferol a grantiau Datblygu presennol.

Mae yn fenter uchelgeisiol ond hyderus, ac wedi dangos hyder lleol, fydd yn elfen bwysig iawn wedi Brexit, ble mae perygl i rym symud fwyfwy i ganolfannau arianol Llundain.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cael mwy o wybodaeth – neu gyfrannu – gellir cael mwy o fanylion ar y wefan lletyarall.org.

Yng nghyfarfod Ebrill yr amryddawn Steve Eaves fydd y gŵr gwadd.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

AVW Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.
Which? Trusted trader **01286 673559** MOT TESTING STATION
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR **DEWCS MAE O'N FLASUS**
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyd



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

CWMY GLO

Llwybr Beicio Cwm y Glo i Lanrug



Mae'r gwaith ar y llwybr beicio o Gwm y Glo i Groeslon Marc, Llanrug eisoes wedi cychwyn, a'r rhan o Gwm y Glo heibio i Garreg y Frân i Ddolafon eisoes wedi ei gwblhau. Mae'r llun yn dangos y gwaith yn mynd rhagddo ar yr ail ran o'r cynllun sef o Ddolafon heibio Cae Peldroed Eithin Duon i Groeslon Marc.

Anfantais y cynllun yn sicr, yw'r ffaith fod angen i feicwyr groesi'r ffordd fawr yn Nolafon. Ar hyn o bryd, does dim gwybodaeth ynglŷn â pa opsiynau sydd i feicwyr i barhau â'u taith o'r Groeslon Marc ymlaen i un cyfeiriad, neu o Gwm y Glo ymlaen i'r cyfeiriad arall.

Undeb-y-Mamau Cyfarfu'r aelodau yn eglwys St Mair bnawn Mawrth, 20 Chwefror. Adroddwyd gweddi Undeb-y-Mamau i ddechrau a chroesawyd aelodau o'r cyfarfod gyda'r nos. Cafwyd adroddiad gan Auriel am gyfarfod mis Ionawr a thrafodwyd rhai eitemau. Y gŵr gwadd oedd Mr Richard Jones a chafwyd sgwrs a lluniau am harddwch Eryri. Mwynhawyd y sgwrs yn fawr iawn. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Auriel a diolchwyd iddi a Mr Jones gan Dorothy. Rhoddwyd y raffl gan Marjorie ac fe'i henillwyd gan Pat Jones. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

Tywydd Mawr Diolch o galon i Keith Williams a Liam Foulkes am eu parodrwydd yr wythnosau diwethaf yn ystod y tywydd garw i raeanu 'Rallt Bryn. Gobeithio na chawn fwy o rew ac eira ac y cawn edrych ymlaen at haul y gwanwyn.

Un funud fach ...

BUDDUGOLIAETH Y PASG

A ninnau ar drothwy Gŵyl y Pasg, daw cyfle newydd i ddathlu'r fuddugoliaeth fawr a sicrhodd Iesu Grist i bawb sy'n credu ynddo. Mae Cristnogion yr oesoedd wedi ymhyfrydu yn y fuddugoliaeth honno a ddisgrifiwyd mor gryno ac effeithiol gan Ann Griffiths wrth iddi ganu am Grist:

'Mae'n ddyn i gydymdeimlo

â'th holl wendidau i gyd,

mae'n Dduw i gario'r orsedd

ar ddiafol, cnawd a byd.'

Ond mae'r Pasg yn ein hatgoffa ei bod hefyd yn fuddugoliaeth lwyr dros farwolaeth. Oherwydd fel y dywed yr Apostol Paul yn y Testament Newydd, 'Y gelyn olaf a ddilëir yw angau' (1 Corinthiaid 15:26).

'Y gelyn olaf' medd Paul. Gellid yn hawdd iawn ychwanegu 'y gelyn gwaethaf' a'r 'gelyn cryfaf' a'r 'gelyn creulonaf' at y disgrifiad hwnnw. Ond dyma'r gelyn a wynebodd Iesu Grist er ein mwyn ni o'i fodd. Un o'r pethau mwyaf rhyfeddol y gellir ei ddweud am Iesu yw nad oedd rhaid iddo wynebu marwolaeth. Ni fyddai marwolaeth ar ei lwybr nac ar orwel ei fywyd ef o gwbl pe na fyddai wedi dewis ei wynebu trosom ni. Cariad perffaith Iesu Grist at bobl fel ni a barodd iddo dderbyn y rheidrwydd i farw er mwyn i ni gael byw. Mae wedi bodloni i farw, gan ddioddef holl gosb ein beiau ni yn ein lle. Gwnaeth hynny ar groes Calfaria, ac fe gofiwn hynny eleni eto ddydd Gwener y Groglith.

Ond nid dyna'r diwedd; ac ar Sul y Pasg dathlwn unwaith yn rhagor atgyfodiad Iesu o'r bedd. Do, fe ddaeth yn ôl yn fyw. Fe goncrodd angau, a dod eto at ei ddisgyblion. Ac ymhen deugain niwrnod fe'u gadawodd hwy wedyn pan gafodd ei ddychafu i'r nefoedd.

Ond nid dyna'r diwedd chwaith gan fod ei fuddugoliaeth ef dros angau yn fuddugoliaeth hefyd i bawb sy'n credu ynddo. Gobaith mawr y Ffydd Gristnogol, ac felly gobaith pob Cristion, yw na chaiff angau'r gair olaf yn ein hanes ni, yn union fel na chafodd y gair olaf yn hanes Iesu Grist. Mor werthfawr yw gwybod mai gelyn sydd wedi ei drechu yw marwolaeth. Er creuloned ei frath, er mor chwerw ei flas, gelyn a hen gollodd y dydd yw hwn. Ac oherwydd hynny, cysur mawr y Pasg yw:

'Am fod yr Iesu'n fyw,

byw hefyd fydd ei saint.'

Dathlwn y fuddugoliaeth ryfeddol a syfrdanol y Pasg hwn eto gan gofio brawddeg arall a ddywedodd Paul yn y bennod fawr ar yr Atgyfodiad: 'Os ar gyfer y bywyd hwn yn unig yr ydym wedi gobeithio yng Nghrist, nyni yw'r bobl fwyaf truenus o bawb.'

Pasg dedwydd a llawen a gorfoleddus i bawb ohonoch.

JOHN PRITCHARD

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI
<http://dioni.co.uk>
 tel: 01341 247 200
 ebost: gwion@dioni.co.uk

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
 Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
 • PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
 Snowdonia



O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar yr 20fed o Chwefror 2018

Etholwyd y Cynghorydd Avril Jones yn Is-gadeirydd hyd y cyfarfod blynyddol

Y Fynwent.

- Gwagio Biniau - Nodwyd fod y trefniant i wagio biniau yn y fynwent yn gweithio yn dda iawn.
- Ymestyn y Fynwent – Penderfynwyd cysylltu a’r ffermwr sydd yn defnyddio’r cae i egluro y bydd angen symud ffensys ayyb.
- Adroddwyd fod cwyn wedi’i dderbyn fod potiau blodau wedi eu gwasgaru ar hyd y fynwent. Ymddengys, yn dilyn ymchwiliadau mae’r gwyntoedd cryf yn ddiweddar a achosodd hyn.
- Pris am godi’r wal – Nodwyd nad oedd prisiau wedi eu derbyn eto oherwydd nad oedd y contractwyr arfaethedig yn fodlon rhoi pris nawr oherwydd ni fydd y gwaith yn cychwyn hyd yr Haf.
- Asesiad Risg – Adroddwyd nad oedd asesiad risg wedi ei wneud o’r fynwent ac fod angen un. Penderfynwyd cael enghreifftiau o asesiadau risg gan gynghorau eraill.

Llwybrau cyhoeddus

Llwybr Carreg Fran, Cwm y Glo

Adroddwyd fod llythyr wedi ei anfon at Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd ond nad oedd ymateb wedi’i dderbyn.

Meysydd chwarae

Holiaduron Cwm y Glo – Penderfynwyd y byddai aelodau Cwmyglo yn cyfarfod i drafod yr ymatebion ar 26ain o Chwefror.

Polisi Iaith y Cyngor

Penderfynwyd mabwysiadu’r polisi iaith ar gyfer Cyngor Cymuned Llanrug

Adroddiadau Aelodau Cyngor Gwynedd

Nodwyd yr adroddiad canlynol gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

Trethi 2018 – 2019

Y Cabinet wedi gwneud penderfyniad ac yn gofyn i’r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar Mawrth 1af i gymeradwyo codiad o 4.8% yn y trethi i’r flwyddyn nesaf.

Yn lleol

Cynllun uwchraddio y llwybr troed rhwng Cwm y Glo a Llanrug, i ddechrau 19 Chwefror ac i gymryd oddeutu chwech wythnos. Bydd trefniadau yn ei lle i sicrhau fod llwybr troed dros dro yn ei le tra mae’r gwaith yn cael ei gwblhau. Fydd hyn yn golygu gostwng y cyfyngiad cyflymder o 50 mya i 30 mya dros dro.

Bydd y ffordd trwy Cwm y Glo yn cael ei ail wynebu yn y flwyddyn ariannol nesaf ac hefyd bydd y palmentydd yn cael ei gwneud.

Gwaith yn dal i fynd yn ei flaen i drïo rhwystro bobol waredu gwastraff yn ymyl y biniau ail-gylchu yn Cwm y Glo. Mae’r awdurdod hefyd yn awyddus i dderbyn unrhyw wybodaeth am pwy sy’n gadael bagiau bin hefo “cat litter” ynddynt yno..

Penderfynwyd i gysylltu a’r Cynghorydd Charles Jones, i holi os buasai ef yn fodlon paratoi adroddiad cyffelyb ar ei weithgareddau a digwyddiadau yn Cyngor Gwynedd dros ardal Llanrug.

Cynllun ‘Arwyr Sbwriel’ Cadw Cymru’n daclus

Penderfynwyd i gysylltu a’r Swyddog priodol yn Cadw Cymru’n Daclus a’i wahodd i gyfarfod nesaf o’r Cyngor

Cyfrif Facebook / Twitter Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glô
Penderfynwyd peidio a chreu cyfrif Twitter a Facebook ar hyn o bryd

Gorsafoedd baw cŵn

Adroddwyd mai gorsafoedd oedd rhain yn dosbarthu bagiau plastig i bobl ddal baw cŵn gyda bin i’w waredu wedyn. Fe wyliwyd fidio o’r syniad gan y cwmni ac ymddengys fod y cwmnïau yma yn gweithio yn agos iawn gyda Cynghorau Sir

Penderfynwyd peidio gwneud penderfyniad hyd nes bod aelodau wedi cael cyfle i fynd i wefan y cwmni ac i geisio mwy o wybodaeth.

Lloches bws ar y lôn fawr.

Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd am y posibilrwydd o osod lloches bws ar y safle ger Erw Hywel, Ffordd Llanberis.

Darparu offer ‘defibrillator’ yn ardal y Cyngor.

Adroddwyd fod nifer o bentrefi a chymunedau yn gosod ‘defibrillator’ yn eu ardal.

Penderfynwyd cysylltu a’r ddwy feddygfa yn Llanrug i holi am eu cyngor.

Cyfethol aelod ar sedd wag i gynrychioli ward Ceunant

Penderfynwyd hysbysu’r sedd wag am gyfnod o bythefnos ac ar ddiwedd y cyfnod anfon manylion y sawl sydd wedi datgan diddordeb i’r aelodau.

Ceisiadau Cynllunio

‘Doedd dim gwrthwynebiad i’r ceisiadau canlynol:

- Creu mynedfa gerbydol newydd a thrac ym Mhen Rallt, Cwm-y-glo.
- Ymestyn yr eiddo presennol er mwyn creu 2 uned breswyl hunan gynhaliol -
Lodge, Seiont Manor Hotel, Llanrug,

Grantiau i fudiadau lleol

Penderfynwyd rhoi’r grantiau canlynol:

a) Y Sefydliad Coffa	£2100
b) Eco’r Wyddfa;	£700
c) Mudiad Meithrin (Llanrug)	£700
d) CPD Llanrug Unedig	£700

Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (RhGDC)

Penderfynwyd awdurdodi’r Clerc y gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio a’r Ddeddfwriaeth sydd yn dod i rym ar 25ain o Fai 2018.



Cefnogwch ein
hysbysebwyrr



O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y 16eg Ionawr 2018

Yn bresennol :- Y Cadeirydd Idris Thomas a'r Cyngorwyr, Phyllis Ellis, Elfed Wyn Williams, Richard Ll Jones, Rhian Evans-Hill, Gwawr Wyn Roberts, Gareth Wyn Griffiths, Croesawyd y Cyngorydd Elwyn Jones
Yna am 7:00, bu i ni groesawu Mr. Ken Wyn Jones o Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd a Mr. Iwan Williams, Swyddog Adfywio yr ardal.

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Idris Thomas

1.Ymddiheuriadau.

Jane Pierce, Aled Green.

2.Datgan buddiant

Dim

3. Cyllid a Phraesept 2018/19

Cyflwynwyd rhestr gwariant ynghyd a balansau y banc er mwyn gweld y sefyllfa ariannol presennol. Cyflwynwyd hefyd amcangyfrif o weddill ein gwariant posib cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cytunwyd fod y cyfrifon yn hollol gywir.

Praesept.

Cafwyd gryn drafodaeth ynglyn a'r praesept. Cyflwynodd y clerc gyllideb posibl ar gyfer 18/19 yn dilyn trafodaethau y ddau gyfarfod diwethaf. Gwelwyd fod costau popeth yn cynyddu, a nodwyd fod yn rhaid codi praesept yn sylweddol eto eleni fel yn sicr fod pob cyngor cymuned arall yn gorfod ei wneud.

Nodwyd fod disgwyl unrhyw welliant ar sgil codi praesept uchel yn weledol, ond gan fod ganddom cymaint o bentrefi o fewn y plwyf, bod yn anodd iawn cael balans, heb godi'r praesept yn ddwbwl a trebl. Eleni, gwelwyd y cyngor yn talu am halen yn y gaeaf i graeanu yn ystod tywydd rhew ac eira ar gôst i bron yn £3000. Mae llawer i gysgodfan bws wedi cael eu atgyweirio, sydd eto yn gôst uchel. Nid oes cysgodfan bws yn Rhiwlas, ac felly yn ystod yr wythnosaf nesaf, fe welir y bydd y cyngor cymuned yn gosod cysgodfan yno, ar gôst o dros £3000.

Yn dilyn cwynion llynedd, bu i ni gael torri llwybrau 3 gwaith eleni.

Cafodd yna ddadl eu rhoi gerbron fod angen codi praesept yn sylweddol er mwyn gweld gwelliant yn ein pentrfi eto, ond ar gostau fel sydd uchod, ni all y cyngor weld codi praesept sydd yn mynd i edrych yn ganran o 50 neu 70 y cant yn uwch na llynedd, yn enwedig pan fo praesept heddlu a'r cyngor sir yn codi hefyd.

Felly, eleni, penderfynwyd yn dilyn gwariant oddeutu £25,600 ac wedi pennu cyllideb o wariant a praesept y flwyddyn nesaf ar £26,500, bydd hyn yn amcangyfrif o tua £14.35 y flwyddyn i tai Band D. Byddai hyn yn gadael y Cyngor gyda balans oddeutu £7000 wrth gefn, sef costau cynnal y cyngor am 6 mis. Gofynwyd I'r clerc felly rhoi cais am £26,500 o braesept ar gyfer 2018/19.

Cae Bwthyn, Deiniolen

Bu i Mr. Ken Jones, gyflwyno ychydig o hanes yr ailstrwythro sydd wedi bod yn Adran Hamdden y Cyngor yn dilyn toriadau llym. Mae'r adnoddau hamdden, megis y canolfannau bellach yn cael eu rhedeg gan gwmni allanol i'r cyngor. Y broses nesaf, ydi ceisio cael caeau chwarae sydd yn ofal y cyngor i gael eu gofalu gan bwyllgorau fel Cyngorau Cymuned.

Dywedodd nad oes bwriad o gwbl i werthu y tir, ond yn dilyn toriadau, ni fydd gwelliant ac o bosib dim cynnal a chadw yn cael ei wneud arno chwaith. Hynny ydi ni fydd y gwair yn cael ei dorri a hel sbwriel a.y.y.b

Er fod y Cyngor Sir yn derbyn fod y cae yn adnodd dda i'r pentref, mae'r cyllideb yn lleihau bob blwyddyn. Bwriad y Cyngor Sir yn y bon yw edrych i wneud arbed o 3K y flwyddyn h.y Dyna y swm sydd yn cael ei wario i dorri y gwair a dwr a trydan i'r ystafelloedd newid. Esboniodd Iwan Williams, fod pob math o grantiau ar gael i wella adnoddau hamdden fel Cae Bwthyn a'r parc chwarae, ond ni all y Cyngorau Cymuned ymgeisio amdanynt, ac felly yr ateb yw creu Pwyllgor Cae Chwarae – fel sydd wedi digwydd ym Methel, lle mae'r Cyngorydd Sion Jones a Pwyllgor Cae Chwarae yn derbyn cynifer o grantiau i wella y cae chwarae ym Methel.

Mae'r amserlen gwaredu yn cychwyn o gwmpas Ebrill 2019, felly mae hyn yn rhoi digon o amser i greu pwyllgor. Buasai yna daliad

ariannol hefyd gan Cyngor Gwynedd am y 4/5 mlynedd cyntaf, os buasai pwyllgor yn ei gymweryd dan eu hadain.

Gofynwyd os oes peryg i parciau chwarae ddod o dan yr un brigyn. Esboniwyd fod y parciau o dan adran arall yn y Cyngor sef Bwrdeistrefol, ond efallai y buasai posib cymeryd y parciau drosodd hefyd.

Esboniwyd fod y Cyngor Sir yn annog rheolaeth lleol ym mhob pentref, hy, annog y pentrefwyr i greu pwyllgor sydd yn gallu rheoli a cynnal a chadw a gwneud gwelliannau drwy gael grantiau gan gyrff ariannol megis – Cist Gwynedd, Magnox, Horizon, First Hydro.

Buasi rhaid cael Cyfansoddiad, Cyfrif Banc a Cefnogwyr.

Diolchwyd I'r ddau gan y cadeirydd.

Materion o'r cofnodion

Croesfan Brynrefail – Dywedodd Martin Davies, yn dilyn yr ymateb Cyngor Gwynedd I gais am groesfan gan y Cyngor Cymuned, eu bod bellach wedi dechrau deiseb i gyflwyno i'r cyngor.

Allt Ddu – Esboniwyd fod 1 cerbyd bellach wedi cael ei symyd oddi yno, ac mae Elfed Williams yn trefnu i gael gwared o'r garafan o flaen Eglwys Llandinorwig hefyd.

CCG – Derbyniwyd llythyr gan CCG ynglyn a'r llain o dir a werthwyd i'r Hen Fecws yn Neiniolen. Ysgrifennu llythyr yn ôl yn gofyn pam nad oedd ar y farchnad agored ac esbonuio y problemau mae yn achosi ar y stryd rwan a sut y gallwn wneud yn siwr nad yw hyn yn digwydd

Gohebiaeth a materion eraill

Biniau Halen- Dinorwig – Daeth cais yn dilyn y tywydd garw cynta'r flwyddyn I symyd bin halen o Parc I sefyllfa rhwng Parc yr Orsedd a Garreg Wen, gan ei fod yn fwy canolog. Yna mae bin halen wedi diflanu ger groesffoedd Marchlyn, ac angen un yn ei le gan ei osod wrth y polyn trydan ger eiddo Gorlan Uchaf. Y clerc i roi cais i Cyngor Gwynedd

Awdit – Derbyniwyd llythyr gan John Roberts ynglyn a'i ymddeoliad. Penderfynwyd gofyn i'r clerc ysgrifennu llythyr o ddiolch iddo am ei waith yn ystod y blynyddoedd.

Cynllunio

Ceisadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Eglwys Santes Helen – Dymchwel Neuadd eglwys arwahan bresennol a chodi Neuadd eglwys yn gysylltiedig wrth yr eglwys bresennol, ynghyd a chreu parcio ar y safle ar gyfer saith cerbyd gan gynnwys dau le ar gyfer yr anabl.

Gwrthwynebu ar sail:

Nid Neuadd Gymuned yw'r adeilad presennol, Datblygiad yn newid cymeriad yr adeilad,

Datblygiad yn amharu ar olygfa y tai dros ffordd, LLeoliad y maes parcio yn creu sefyllfa beryglus, Ni sonir yn y cais beth bwriedir werthu yn y siop, Nid oes angen Neuadd arall yn y pentref

Bwthyn Ty'n Radd – Estyniad Unllawr. Dim Gwrthwynebiad

Llys Yr Onnen, Penisarwaun – Diddymu Cytundeb cyfreithiol oedd ynghlwm a chaniatad cynllunio Dim Gwrthwynebiad

Coed Bach Pengraig, Seion – Sied ar gyfer defnydd coedwigaeth, rhodfa a lle cyn parcio Dim Gwrthwynebiad

O Gwmpas y Bwrdd

Bysiau Lleol – Mae cwyno mawr ynglyn a toriadau yng ngwasanaeth y bysiau yn dilyn trafferthion Express Motors. Dywedwyd fod Express Motors Caernarfon Ltd yn ceisio am drwydded arbennig, ac os yn llwyddiannus, byddent yn cychwyn ar wasanaeth yn yr ardal yma fel yr oedd cynt.

Toiledau Cyhoeddus Beran -Dywedwyd fod rhywyn wedi galw yn Beran i ddefnyddio y toiledau, ond wedi eu gwrthod. Yna galwodd rhywyn arall a codwyd 50c arnynt i ddefnyddio toiledau. Mae Cyngor Sir yn dilyn cau toiledau cyhoeddus yn rhoi £500 i fusnesau i agor toiledau cyhoeddus, trwy gais. Gofynwyd i'r Clerc lythyrro perchennog y Garej gyda cais o'r Cyngor Cymuned gyda manylion gan y Cyngor Sir.

Brynrefail – Cais i symyd y bin baw cŵn o fynedfa Y Caban, a'i leoli ar bolyn ychydig pellach draw.

Bu i'r clerc ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch i Richard Ll. Jones am y geiriau caredig yma a gyflwynwyd ar ddiwedd y cyfarfod:

Y mae dydd pan wêl pum deg – yn arwydd

i 'Leri' fod gosteg

o waith dwys, yn fendith deg,

cyn chwenych cwyn ychwaneg.



Ar ben arall i'r lein



'Alafon' oedd dan sylw mis diwethaf a gorffenaais drwy ddweud y byddwn yn gwneud apêl am wybodaeth, yn ogystal â thynnu eich sylw unwaith eto pam na ddylem os yn bosib gadael rhan o hanes y fro yma fynd ar goll i niwloedd amser. O ia, pam yr apêl? – wel am mai pysgotwr oedd o, wrth gwrs, ac mae rheini yn brin iawn ar adegau yr amser yma o'r flwyddyn.

Drwy bori drwy Gofiant Alafon (1926) gan Y Parch R.H. Watkins, Ysgoldy, dyma dynnodd fy sylw: 'Codwyd y gofgolofn hon, ac hefyd sefydlwyd Ysgoloriaeth yn ei enw yn Ysgol Sir Brynrefail, drwy danysgrifiadau cyfeillion ac edmygwyr.' Drwy gael sgwrs â Closs deallais ei fod wedi cysylltu ag Ysgol Brynrefail, Llanrug, i edrych a oes unrhyw wybodaeth ar gael i'r perwyl yma. Tydi o ddim di cael ateb. Felly penderfynais fynd ar drywydd arall, a dyma be ddaeth allan:-

Mae Will Price, sef brawd fy mam, yn 92mlwydd oed ac yn byw yn Aberystwyth, a byddaf yn galw i'w weld o a'r teulu yn y canolbarth 'na o dro i dro. Y tro diwethaf i mi alw oedd cyn y Nadolig. Fel arfer mae rhan o'r sgwrs erbyn heddiw yn ymwneud â'i fro enedigol a pwy sydd ar ôl o'r hen griw. 'Roeddwn yn gwybod ei fod wedi bod yn ddisgybl yn yr Ysgol Sir. 'Roedd â diddordeb mawr bod Gareth, y mab, yn byw yn hen gartref Alafon, sef 'Llwyn Iorwg, Clwt y Bont. Cyfeiriais at yr Ysgoloriaeth a holi tybed a oedd yn gwybod rhywbeth am y peth. 'Roedd ei ateb yn syfrdanol

"Yndw," meddai. "Mi wnes i ei hennill, trydydd oeddwn. Y cyntaf oedd hogyn prifathro'r ysgol, yr ail oedd merch un o weinidogion Llanberis a minnau yn drydydd. Cefais bunt a chweigian. Help mawr neu ni fuaswn wedi medru mynd yno. 'Rwy'n credu mai oddeutu 1935, ballu, fuasai hyn."

Oes na unrhyw un gyda gwybodaeth am yr ysgoloriaeth yma, Oes yna rhywbeth yn yr Ysgol Brynrefail bresennol efallai?

I geisio dod yn agosach at yr hen bysgotwr, 'es draw i gael golwg ar ei gofgolofn ym mynwent Bryn 'Rodyn, Groeslon. Yndi mae'n golofn drawiadol, ond yn anffodus mae yr enw yn cael ei



erydu gan y tywydd – ond mae'r cyfeiriad am Ysgoloriaeth Ysgol Brynrefail yn dal i fod yn ddarllenadwy. Oes rhywun yn gwybod am ryw sefydliad neu rhywbeth sy'n gallu adfer cofgolofnau o'r math? Ydi'n bosib bod mor hy a gofyn a oes gan ein gynghorau cymuned rhyw fodd o edrych ar hyn, mae digon o arian i'w weld o gwmpas at rai pethau!

Mae gweithredu bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dal i ddal y penawdau gyda chyfarfod wedi ei gynnal ym Methesda ar nos Fercher, 21 Chwefror, gyda Aelodau'r Cynulliad, sef Sian Gwenllian a Rhun ap Iorwerth yn bresennol. Penderfynwyd trefnu deiseb i'r llywodraeth yn gofyn am adolygiad o'r ffordd y daeth y bwrdd i'r penderfyniad dadleuol o geisio atal pysgota – a dyna beth mae pawb yn gredu sydd tu ôl i hyn i gyd. Mae manylion y ddeiseb i'w gael drwy edrych ar:-

<https://www.assembly.wales/en/gethome/e-petitions/Pages/petitiondetail.aspx?PetitionID=1315>

Efallai eich bod eisiau ei harwyddo!

Mae 3 Mawrth wedi dod unwaith eto a llusgo tymor 'sgota newydd yn ei sgil. Mae'n addo pob math o dywydd, ac mae'r cyfryngau yn ein rhybuddio bydd y 'bwystfil o'r dwyrain' yn ein taro, gyda rhyw oerni dychrynlyd ac eira mawr ymhobman. Mwyaf tebyg bydd yr holl wlad wedi cau i lawr, ysgolion wedi cau, trenau a bysiau wedi eu hatal a ffyrdd wedi cau a'r siopau bwyd wedi gwerthu allan. Ond mi gaiff yr hen Forus y Gwynt a Ifan yr Eira 'na chwythu a bygythio faint y myn, tydw i ddim ond rhyw gwta filltir o'r Seiont a'r Finiog (Crawai i rai dieithr) felly os bydd yn rhaid ei throedio hi, mi fydda i ar yr afon at amser cinio'r 3ydd. Yn anffodus nid yw'n bosib gadael i chwi wybod sut aeth pethau gan ein bod yn i gwadnu hi am yr haul cyn bron cael amser i gadw'r enwair. Felly mae'n rhaid i'r adroddiad hon fod 'mewn llaw' cyn imi adael y fro.

Trwy droi yn ôl at y tywydd, oes na rywun heblaw y fi yn meddwl fod pethau yn cael eu gorddweud – creu rhyw argyfwng ble does dim. Wel eleni gan fod rhyw ben-blwydd arbennig ar y gorwel 'rydym wedi penderfynu ein bod am fynd i gael golwg ar rai llefydd gwahanol. Cyn iddi fynd yn rhy hwyr yn 'de. A dyna ydi'r daith mis Mawrth. Ond ar ddechrau Ionawr mi fuom yn Val'diere, Ffrainc. Dyna le am eira. Mi fuodd hi'n lluwchio am ddau ddiwrnod bron, gyda lluwchfeydd o 4 medr o gwmpas y lle. Be oedd wedi cau – wel dim byd. Ysgolion yn dal i gael eu cynnal, bysiau wedi eu hatal? wel oedd ond dim ond hyd nes roedd yr eira yn cael ei glirio. Does dim trenau yno.

Mi ofynnais rhyw dro be oedd y rheswm am beth fel hyn, yr ateb gefais oedd ei fod yn wahanol eira!! A dyna chi pam mae pethau'n cau i lawr yma. Clywais ar y radio bore 'ma 27/2. sgwrs gyda Chymro yn byw yn Oslo, 'roedd 'e dweud fod pethau'n rhedeg heb drafferth yno, er maint yr eira maent yn ei gael o ddiwedd Hydref at Ebrill. Mae'n rhaid fod yn eira yn Norwy yr un peth ac eira Ffrainc ond yn wahanol i eira Arfon, mae'r pethau 'ma yn fy rhyfeddu.

Cawn fwy am 'sgota mis nesaf – dwi'n addo!

Huw Price Hughes.

GWOBRAU INTO FILM 2018

Llwyddiant yn Llundain i’r merched.



Yn ystod hanner tymor yr Hydref, mynychodd criw o ferched ifanc weithdy ffilm ym Mhenygroes gyda clwb ffilm Dyffryn Nantlle 2020. Aeth y merched ati i gynhyrchu ffilm arswyd o’r enw ‘SWYN’, ble roedd y merched yn gyfrifol am ei hysgrifennu, cyfarwyddo, ffilmio – gwaith camera a sain a pherfformio ynddi. Ymhlith y merched oedd Betsan Haf o Lanrug a oedd yn serennu

yn y ffilm. Cafodd y ffilm ei henwebu yng ngŵyl ieuenctid ‘INTO FILMS’ a daeth y ffilm i’r brig yn y categori Ffilm Drama Fyw i blant o dan 12 a oedd wedi ei noddi gan Sony pictures. Cawsant groeso mawr lawr yn Llundain ble roedd y carped coch allan i’w croesawu a ble cawsant gyfle i gyfarfod rhai o sêr y byd ffilm. Da iawn ferched. Daliwch ati!

Diwrnod i’r Merched yn y Cynulliad



Ddiwedd Chwefror cafodd Anna Thomas o Lanrug y cyfle i ymuno â rhyw ugain o ferched ifanc eraill o bob cwr o Gymru i dreulio diwrnod yn y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Roedd yr achlysur wedi ei drefnu gan yr elusen Chwarae Teg, sy’n ymwneud â chydaddoldeb rhyw, ac yn helpu merched i gyflawni a ffynnu, a rhoddwyd yr enw ‘LeadHership’ i’r diwrnod.

Y llynedd gwahoddwyd ceisiadau gan ferched ifanc rhwng 16 a 25 oed i gael bod yn rhan o’r digwyddiad a fyddai’n dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Noddwyd y diwrnod gan Trenau Arriva Cymru, a oedd yn darparu tocynnau trên am ddim i’r cyfranogwyr.

Roedd angen i’r merched ifanc ymateb i’r cais oedd yn cael ei drafod yn y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod mis Mawrth, sef “Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn cynnig y cyfle pwysig i fyfyrïo ar y cynnydd a wnaed o amgylch y byd i sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Er bod cynnydd da wedi’i wneud mewn rhai meysydd, mae angen i ni fod yn feiddgar wrth fynd i’r afael â’r rhwystrau sy’n parhau i atal menywod rhag bod a chymaint o ran a dynion ym mywyd economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.”

Roedd yn dipyn o syndod i Anna pan gafodd ei dewis, oherwydd newydd gael ei phenblwydd yn 16 oed oedd hi pan lanwodd y ffurflen gais, a hi oedd y ferch ieuengaf i gael ei gwahodd i fynychu’r diwrnod. Roedd amryw o’r merched eisoes mewn gwaith, eraill mewn colegau a’r gweddill yn ddisgyblion chweched dosbarth. Ar y diwrnod roedd pob un ohonynt yn ‘cysgodi’ eu Haelod Cynulliad, ac yn cymryd rhan mewn ffug ddadl ar ddiwedd y dydd. Anna ac un ferch arall oedd yr unig ddwy i gyflwyno eu dadleuon yn Gymraeg.

Meddai Sian Gwenllian AC: “Mi ges i’r pleser o groesawu Anna Whiteside Thomas o Lanrug i nghysgodi i am y diwrnod a dwi’n gobeithio iddi fwynhau ei hun. Roeddwn i wedi cyfarfod Anna o’r blaen gan ei bod yn un o dim peirianeg merched-i-gyd ‘Gwalch Grymus Cymru’ a ennillodd gystadleuaeth Formula 1 For Schools yn cynllunio car rasio. Mae gennym ni ferched dawnus iawn yn Arfon!”

Gyda diolch hefyd i Rhun Davies o Lanfaglan, aelod o dim Plaid Cymru yn y Cynulliad a fu’n gofalu am Anna tra roedd Sian Gwenllian yn brwydro’r tywydd i gyrraedd mewn pryd!

(Ac ar nodyn personol, roedd gohebydd “Eco’r Wyddfa” hefyd yn bresennol i gofnodi’r diwrnod!)

Chwaraeon



COFIO UN O'R CEWRI

Ddiwedd Chwefror bu farw Emlyn Davies yn 97 mlwydd oed. Cefais ddwy alwad ffôn yn gofyn i mi lunio teyrnged i Emlyn y 'ffwtbolar'. Yr oedd y ddau berson o'r un farn mai Emlyn oedd y pêl-droediwr amatur gorau a welodd yr ardal hon. Y mae Arwel yn ei lyfr rhagorol ar hanes y Darans fel petai yn cefnogi'r farn.

Un o Glan Conwy oedd Emlyn, yn un o bump o blant. Dechreuodd dynnu sylw ato'i hun fel chwaraewr 15 oed yn nhymor 1935 gyda thîm Blaenau Ffestiniog. Bachgen ymysg dynion mewn cyfnod pan oedd y gemau yn fwy corfforol ac ar feysydd o ansawdd gwaeth na'r meysydd heddiw. Mae adroddiadau cynnar amdano yn sôn am un â rheolaeth dda, cydbwysedd ar y bêl, a phasiwr celfydd. Yn undeg saith oed mae'n cael treial gyda Nottingham Forest. Yn wir, fel diolch danfonodd y Forest dîm draw i'r Blaenau i chwarae gêm gyfeillgar a gododd gelc dderbyniol iawn i hogia Cae Clyd. Daeth y Rhyfel ac ymunodd Emlyn â'r R.A.F. Ar ddiwedd y Rhyfel mae Emlyn yn symud i Lanberis gan weithio yn yr R.A.F. Ministry a chyfnod gyda'r fan Mass X-ray yr oedd cymaint o alw amdani yn y fro.

Mae Emlyn yn ymuno a thîm Llanberis – ei unig glwb hyd diwedd ei yrfa ar drothwy'r 60au. Yr oedd yn gyfnod ansefydlog i bêl-droed lleol, gyda thimau yn gwibio o un gynghrair i'r llall, neu yn cael ambell dymor ble nad oedd tîm yn cael ei gynnal. Serch hynny roedd yn gyfnod o chwaraewyr 'tramor' yn cynhyrchioli Llanberis a Llanrug a'r gemau darbi yn danllyd. Heb os yn Llanberis, Emlyn oedd y garreg sylfaen. O'i gwmpas o y sefydlwyd y tîm am sawl tymor. Bu yn allweddol yn meithrin hogiau lleol a ddaeth maes o law yng nghanol y 60au y tîm amatur gorau yn y Gogledd.

Chwaraeodd Ken Jones (Ken Peintwr) gydag Emlyn ac roedd yn edmygydd mawr ohonno. Y gallu gan Emlyn i ysbrydoli tîm.

Y teyrngarwch i'r un clwb – peth prin heddiw. Ei edmygydd mwyaf oedd y Parch. Herbert Thomas, Llannor. Byddai Mr. Thomas yn dilyn Llanberis pob gêm – gartref neu ffwrdd – a doedd neb fel Emlyn yn ei farn ef. Mae stori amdano yn rhuthro i'r cae a chodi Emlyn i fyny wedi iddo sgorio gôl hwyr i ennill gêm bwysig i Lanber! Ceisiodd sawl clwb geisio denu Emlyn o Lanberis ond yno arhosodd ar hyd y bedlan.

Soniais yn gynharach am y pwysigrwydd rhoddai Emlyn i feithrin yr elfennau pwysig mewn chwaraewyr ifanc. Gwelwyd hyn ar ei orau yng nghanol y 60au pan wahoddwyd Emlyn i reoli tîm Ieuenctid Bangor, a llwyddodd y tîm hwnnw i gipio Cwpan Ieuenctid Cymru. Aeth nifer o'r tîm hwnnw ymlaen i gynhyrchioli tîm y Ddinas, ac ambell i dîm pwerus arall.

Ymfalchiai Emlyn hefyd fod ei fab Kevin (oedd yn athletwr penigamp) wedi cynhyrchioli tîm Pêl-droed Ysgolion Cymu, ac hefyd ei wŷr Stuart Williams (a gynhyrchiolodd dîm criced Ysgolion Cymru hefyd).Yr oedd yr hyfforddi a'r ffydd mewn meithrin ieuenctid yng nghwaed Emlyn yn amlwg ac yn dechrau wrth ei draed. Roedd Emlyn wrth ei fodd hefyd yn chwarae golff a bu am sawl blwyddyn yn aelod o Glwb Golff Caernarfon.Rydym yn cydymdeimlo gydag Ann, Bobbie a Kevin (yn Awstralia ers sawl blwyddyn bellach) a'u teuluoedd yn eu colled. Cefais ganiatad gan Ann i ddyfynu rhan o'r deyrnged i'w dad a draddodwyd gan Kevin ddydd angladd Emlyn.

“Roedd dad yno i fy nghefnogi beth bynnag y gamp neu'r achlysur. Dôs a gwna dy orau – ac ennill.”

“ Ni anghofiaf ei falchder pan ennillo'n ni Gwpan Ieuenctid Cymru, a fi yn y tîm.”

“ Doedd dad ddim yn ddyn hawdd i'w blesio. Roedd yn gosod safonau uchel i'w dilyn. Ond yn y drafodaeth wedi'r gêm neu râs rhyngom ni'n dau, yr agweddau positif fyddai yn canolbwyntio arnynt.”

“ Dyn addfwyn fu nhad erioed – mam oedd yn disgyblu!”

“ Nid yw amser na phellter yn pallu'r cof – dad oedd dad – y gorau, a diolchaf amdano.”

I un o gerrig sylfaen clwb Llanberis, diolch am ymroddiad, atgofion a chyfraniad. Heddwch i'w lwch.

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Diwrnod Racedi a Mwy

Ar ddydd Sul olaf y mis trefnodd Tim Chwaraeon am Oes ddiwrnod agored cymunedol ar gyfer y teulu cyfan yn rhad ac am ddim yng Nghanolfan Tennis Arfon. Roedd sawl gweithgaredd amrywiol gan gynnwys tenis, badminton, criced, golff a sboncen.

Llysgenhadon Ifanc Gwynedd



Mae rhai o lysgenhadon ifanc Gwynedd sydd yn ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn ysbrydoliaeth i unrhyw un. Dros yr wythnosau diwethaf mae Beca wedi derbyn tystysgrif cenedlaethol am gwblhau dros 200 awr gwirfoddol. Mae Ryan, Robin a Ffion wedi cymhwyso yn arweinwyr tenis ac Anna wedi bod yn cysgodi aelod seneddol Sian Gwenllian yng Nghaerdydd fel rhan o brosiect denu mwy o arweinwyr ifanc i fyd gwleidyddiaeth. Mae’r llysgenhadon wedi bod yn gymorth gyda chystadleuthau athletau dan do (Sportshall) yn ddiweddar ac ni fyddai’r digwyddiad wedi bod yn llwyddiannus heb waith caled y disgyblion. Daliwch Ati!

A YW’R RHÔD YN TROI?

Dyna’r cwestiwn wedi cystadleuaeth rygbi Chwe Gwlad ddramatig iawn. Drwy ennill eu tair gêm gartref gorffenodd Cymru yn ail yn y tabl terfynol. Daethpwyd yn agos i gipio buddugoliaeth draw yn Twickers, dim diolch i benderfyniad amheus y TMO, a gor-fentro yn arwain i golli gêm agos – o ran sgôr nid gallu – draw yn Nulyn. Cymru felly yn haeddioanol yn ail, gyda’r Gwyddelod yn llwyr deilyngu y Gamp Lawn. Gwelwyd cryfder Ffrainc ond dim llawer o’u fflachiadau cynhenid. Mae Ffrainc yn barod i gyfaddef fod yr arian mawr sydd wedi denu tramorwyr i’w prif dimau yn llesteirio datblygiad y tîm cenedlaethol. Roedd yr Alban yn wefreiddiol ar brydiau, yr un gwefreiddiol na Chymru yn eu herbyn. Ond nid oedd hyder gan Gatland a’r tîm rheoli i gadw ffydd â’r gêm agored yn erbyn Ffrainc. Er teg dweud, ar y lefel uchaf yr ennill sy’n bwysig. Edrychwn ymlaen i weld eu hagwedd a’u datblygiad gyda thîm heb nifer o’r chwaraewyr profiadol ar daith yr haf mewn gemau yn erbyn De’r Affrig a’r Ariannin. O ia! Pumed oedd Lloegr fawr, gorfforol, gegog...

GEMAU LLEOL

Prin iawn fu’r gemau yn ddiweddar oherwydd y tywydd, er cafwyd canlyniad rhagorol gan Lanrug draw yng Nghonwy – 2-2; ond colli 2-3 yn eu herbyn y Sadwrn canlynol . Fe allai’r ddau dîm yma fod wedi herio ei gilydd yn rownd derfynol Tlws F.A. Cymru. Ennill y gemau mewn llaw fydd yr her bellach. Mae Llanberis hefyd mewn safle da yn y gynghrair, a chadw’r momentwm gyda’i tîm ifanc fydd y bwriad. Mae’r Waunfawr fel petaent yn dim sefydlog canol y tabl er bod ambell ganlyniad yn codi’r ysbryd.



Mae cyfres Rasys Nos Fawrth sy’n cael ei noddi gan Joe Brown yn dathlu ei phenblwydd yn bump ar hugain oed eleni, ac yn mynd o nerth i nerth. O’i chychwyn cyntaf fel abwyd i ddenu rhedwyr allan i ymarfer ar ganol wythnos, mae wedi tyfu o griw bychan o rhyw ugain (neu lai!) yn troi allan i niferoedd cyson dros gant yn ystod y ddwy neu dair blynedd diwethaf. Heb anghofio wrth gwrs am y rasys ieuencid (a noddir gan gwmni Caernarfon Tyres) sy’n gysylltiedig â’r prif rasys – meithrinfa i redwyr a ddaeth yn ddiweddarach i gynrychioli eu gwlad mewn rasys mynydd.

Erbyn hyn mae deuddeg o rasys yn y gyfres: cur pen i’r un sy’n didoli’r canlyniadau o wythnos i wythnos. Fel o’r cychwyn cyntaf mae’r rhan fwyaf o’r arian a delir am gystadlu yn mynd i elusennau lleol, ac y mae’r pris yn hynod resymol. £2 i oedolion am bob ras, a £1 i’r ieuencid. Ac o dalu £20 ymlaen llaw, mae dwy ras am ddim. Bydd ras gyntaf y gyfres eisoes wedi ei chynnal yn Llanberis erbyn i chwi dderbyn y rhifyn hwn o’r “Eco”. Gweddill rasys mis Ebrill fydd: Aber (o faes parcio’r rhaeadr) ar y 3ydd; Y Foel Lus (o Ddwygyfylchi) ar y 10fed; Ysgol St David Llandudno ar yr 17eg; Pen Dinas (o Nant Peris) ar Fai 1af. Bydd pob ras yn cychwyn am 7.15.

Bydd hanes y rasys cyntaf yn rhifyn nesaf yr “Eco”, gan gynnwys y rasys fydd yn cael eu cynnal yn ail hanner y gyfres. Mwynhewch!

AMSER CNOI CIL

Dyna fydd hanes clwb Bowlio Dan-dô Bethel yn yr wythnosau nesaf. Maent newydd gwblhau eu tymor cyntaf yng Nghyngrair Gwynedd. Ni ddaeth unrhyw dlysau ond maent wedi ennill y tlws pwysicaf sef magu hyder a phrofiad. Fel newydd ddyfodiad roeddent yn ymwybodol eu bod am wynebu timau wedi hen sefydlu ers sawl tymor.

Erbyn hyn mae’r clwb – a sefydlwyd yn 2015 – yn cynnwys 18 o aelodau. Fe ddefnyddir system rota yn y gemau cynghreiriol fel bod pob aelod yn cael y profiad o’r gemau cystadleuol. Mae’r clwb yn cyfarfod yn Y Neuadd Goffa am 1pm ar bnawn Mercher a 7pm ar nos Wener. Mae’r clwb yn dal i ymlynnu i’r bwriad gwreiddol o’i sefydlu sef cynnig cyfle i gadw’n heini ac hefyd ategu at fywyd cymdeithasol y pentref. Os ydych am fwy o fanylion – ac mae croeso i phob oedran – yna cysylltwch â’r swyddogion : Dafydd Price (Cadeirydd), Dafydd Williams(Trysorydd) neu Idris Rees (Ysgrifennydd). Yn y llun gwelir tîmau Bethel a’r Ffôr yn gymysg wedi gêm gyntaf gynghreiriol clwb Bethel.

BRYNREFS,BRYNREFS!

Ydy, mae rhyfelgri cefnogwyr timau pêl-droed Ysgol Brynrefail yn dechrau magu tipyn o sŵn. Mae dau dîm o’r ysgol – y tîm hŷn a thîm Bl.7 –ar rediadau da yn y cwpanau cenedlaethol. Mae’r tîm hŷn yn wynebu Ysgol Bro Myrddin gartref yn y rownd gynderfynol wedi gwyliau’r Pasg. I gyrraedd y rownd yma trechwyd tîm Ysgol Dyffryn Conwy o 6-3 mewn gêm ryfeddol. Brynrefail ar y blaen 3-0, yna 3-3 cyn i Brynrefail cael ail wynt ac ennill. Roedd y tîm o Lanrwst wedi cyrraedd dwy o’r dair gemau terfynol diwethaf. Dipyn o sgalp felly.

Bro Myrddin bydd yn herio y tîm Bl.7 hefyd yma yn Llanrug yn rownd yr wyth olaf. Yn y rownd flaenorol cafwyd gêm gystadleuol iawn draw yn Ysgol Aberteifi. 1-1 ar ddiwedd amser arferol, ond yna hogia ni yn canolbwyntio ac yn ennill ar giciau o’r smotyn. Ai hon fydd blwyddyn y dwbwl draw ym Mrynrefail?

Roedd tîm pêl-fasged dan 14 yr ysgol yn rowndiau terfynol Cwpan Cymru yng Nghaerdydd. Eu gwrthwynebwyr yn y rownd derfynol oedd ysgol y Bontfaen, Bro Morgannwg. Mewn gêm gystadleuol y deheuwr aeth a hi o 28-22. Roedd yn berfformiad i’w ganmol gan hogiau Brynrefail yn enwedig gan fod ‘hogia Sowth hefo llawer o chwaraewyr mawr’, chwedl un o dîm Brynrefail. Maint y galon, hwnna ydi o! (Llun ar dudalen Ysgol Brynrefail)

Chwaraeon

Bowldro Ysgol Brynrefail



Dyma neges dderbyniwyd gan Hannah Hughes, Swyddog Tim Chwaraeon am Oes:

“Hoffwn longyfarch timau bowldro merched a bechgyn blyneddoddd 7 a 8 Brynrefail am eu perfformiad arbennig heddiw yng Nghanolfan Dringo Indy.

Roedd y ddau dim yn fuddugol ac yn llwyddiannus yn ennill gyda sgoriau gwych yn eu categorïau.



Roedd y disgyblion yn cynrychioli Gwynedd yng nghystadleuaeth bowldro Ysgolion Gogledd Cymru.

Hoffwn ychwanegu roedd agwedd ac ymddygiad y disgyblion yn wych trwy'r diwrnod ac yn bleser eu cael yn rhan o'r digwyddiad.

Mae'n amlwg fod ieuenctid y fro yn hynod weithgar mewn amryfal feysydd

Medalau am Nofio



Catrin Beech o Lanrug yn Nofio gyda Clwb Nofio Caernarfon, yn mis Mawrth wedi cymeryd rhan yn Gala Nofio AA & B yn Llanduno ac wedi fod yn llwyddianus i gael medal Aur am nofio 50m dull rhydd, 2 medal arian am nofio Broga 50m a 100m a medal Efydd am 50m Cefn. Catrin yn cystadlu o dan oedran 13 oed.

Her 30-30



Ar ddydd Mawrth a Mercher y 1af a'r 2il o Fai bydd 7 unigolyn yn ceisio cerdded 30 copa uchaf Eryri (3000 Cymru x2) mewn 30 awr er mwyn casglu arian i elusennau lleol Awyr Las a Hosbis y Cartref Gwynedd a Mon ac i ail-lawnsio ymgyrch ysbrydoledig Tim Irfon er cof am Irfon Williams.

(Hannah Hughes, Stephen Edwards, Alan Owen, Dewi Ferrero, Gwyn Griffiths, Phil Tan Jones, Lowri Morgan Jones.)